department for
culture, media
and sport

GORCHYMYN DIWYGIO RHEOLEIDDIO: CYNNIG I GYFLWYNO PROSES SYMLACH AR GYFER MÂN AMRYWIADAU I DRWYDDEDAU MANGRE A THYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB

Deddf Trwyddedu 2003

improving
the quality
of life for all

EIN NOD YW GWELLA ANSAWDD BYWYD I BAWB DRWY WEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL A CHWARAEON, CEFNOGI CEISIO RHAGORIAETH, A HYRWYDDO'R DIWYDIANNAU TWRISTAIDD, CREADIGOL A HAMDDEN.

Crynodeb o'r Cynnig a Dewisiadau ar gyfer Gweithredu

Cynnig

1. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu addasu Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ('Deddf 2003') er mwyn darparu ar gyfer proses symlach ar gyfer 'mân' amrywiadau (newidiadau) i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.

Dewisiadau ar gyfer gweithredu

2. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn trafod 3 dewis. Ar y cam hwn, mae'r Llywodraeth yn ffafrio Dewis 1. Dyma'r dewisiadau:

Dewis 1*: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod gan ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

Dewis 2: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd fel uchod, ond gan gyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

Dewis 3: Dim newid.

* Dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth.

CYNNWYS

ADRAN 1:	RHAGARWEINIAD A PHWRPAS	5
ADRAN 2:	Y BAICH	9
ADRAN 3:	DEWISIADAU AR GYFER TYNNU'R BAICH DYNODEDIG	12
ADRAN 4:	MATERION ERAILL	15
ADRAN 5:	A ELLID CYFLAWNI'R CYNNIG DRWY DDULL ANNEDDFWRIAETHOL?	19
ADRAN 6:	A YW'R CYNNIG YN GYMESUR AG AMCAN Y POLISI?	20
ADRAN 7:	A YW'R CYNNIG YN SICRHAU CYDBWYSEDD TEG RHWNG BUDD Y CYHOEDD A BUDD UNRHYW UN A EFFEITHIR YN NIWEIDIOL GANDDO?	21
ADRAN 8:	A FYDDAI GORCHYMYN YN DILEU UNRHYW AMDDIFFYNIAD ANGENRHEIDIOL?	27
ADRAN 9:	CASGLIADAU CRYNO	29
ADRAN 10:	CRYNODEB O GWESTIYNAU	31
ATODIAD A:	RHESTR YMGYNGHORI	33
ATODIAD B:	ASESIAD EFFAITH	36
ATODIAD C:	COD YMARFER SWYDDFA'R CABINET AR YMGYNGHORIADAU	57
ATODIAD D:	GORCHMYNION DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL - YSTYRIAETH SENEDDOL	58

PENNOD 1: RHAGARWEINIAD A PHWRPAS

1.1 Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (Deddf 2006) yn galluogi Gweinidog y Goron, gyda chymeradwyaeth y Senedd, i wneud gorchymyn diwygio rheoleiddio y mae'n ystyried y byddai'n tynnu neu'n lleihau baich sy'n syrthio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar unrhyw berson.

1.2 Byddai baich felly'n gost ariannol, neu'n anghyfleustod gweinyddol, neu'n rhwystr i effeithlonrwydd, cynhyrchiant neu broffidrwydd, neu'n gosb, yn droseddol neu fel arall; neu'n cynnwys cyfuniad o'r elfennau hyn.

1.3 Ni allai gorchymyn osod, gwahardd nac amrywio unrhyw dreth. Nid oes gan y cynnig hwn unrhyw effaith o gwbl ar dreth.

1.4 O dan adran 3 Deddf 2006, cyn cyflwyno cynnig i'r Senedd i wneud gorchymyn diwygio rheoleiddio, rhaid i Weinidog y Goron fod yn fodlon:

- na ellid bod wedi diogelu'n foddhaol trwy ffyrdd anneddfwriaethol yr amcan polisi a oedd wedi'i fwriadu i gael ei ddiogelu gan y gorchymyn;
- bod effaith y ddarpariaeth yn gymesur â'r amcan polisi;
- bod y ddarpariaeth, o'i chymryd yn gyfan, yn taro cydbwysedd teg rhwng diddordeb y cyhoedd a diddordebau unrhyw berson a gaiff ei effeithio'n andwyol ganddi;
- nad yw'r ddarpariaeth yn tynnu unrhyw amddiffyniad angenrheidiol;
- nad yw'r ddarpariaeth yn atal unrhyw berson rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y gellid disgwyl yn rhesymol i'r personol hwnnw barhau i ymarfer; ac
- nad yw'r ddarpariaeth o arwyddocâd cyfansoddiadol.

1.5 Gall y Gweinidog argymell un o dair gweithdrefn arall ar gyfer craffu Seneddol yn dibynnu ar faint a phwysigrwydd Y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Y penderfyniad negyddol yw'r un lleiaf beichus ac felly gallai fod yn addas i Orchmynion Diwygio Deddfwriaethol sy'n cyflawni diwygio rheoleiddio ar raddfa fach. Y gweithdrefnau uwch-gadarnhaol yw'r rhai mwyaf beichus sy'n golygu'r cyfraddau craffu manylaf gan y Senedd. Er y gall y Gweinidog wneud yr argymhelliad, y Pwyllgorau Craffu Seneddol sy'n cael y gair olaf ynglŷn ag a fydd y weithdrefn yn berthnasol.

- Gweithdrefn Penderfyniad Negyddol - Mae hyn yn rhoi 40 diwrnod i'r Senedd graffu Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft lle gall y Gweinidog wneud y Gorchymyn wedi hynny os nad oes yr un Senedd wedi penderfynu na ddylid gwneud y Gorchymyn yn ystod y cyfnod hwnnw.

- Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol – Mae hyn yn rhoi 40 diwrnod i'r Senedd graffu Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft lle gall y Gweinidog wneud y Gorchymyn wedi hynny os caiff ei gymeradwyo trwy benderfyniad pob Senedd.

- Gweithdrefn Penderfyniad Uwch-Gadarnhaol – Gweithdrefn dau gam yw hon lle mae yna gyfle i'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft gael ei adolygu gan y Gweinidog.

1.6 Mae hyn yn rhoi 60 diwrnod o graffu mewnol i'r Senedd, pan allai'r Pwyllgorau Seneddol adrodd ar y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft, neu gallai'r naill dŷ Seneddol wneud penderfyniad mewn perthynas â'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft.

1.7 Ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod ddod i ben, os dymuna'r Gweinidog wneud y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol heb unrhyw newidiadau, rhaid iddo osod datganiad. Ar ôl 15 niwrnod, gallai'r Gweinidog wneud Gorchymyn o ran y drafft, ond dim ond os caiff ei gymeradwyo trwy benderfyniad pob Senedd.

1.8 O dan bob gweithdrefn, mae gan y Pwyllgorau Craffu Seneddol y grym i argymell nad yw'r Gweinidog yn gwneud y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Os bydd un o'r Pwyllgorau Seneddol yn gwneud argymhelliad felly, gallai'r Gweinidog ond symud ymlaen os caiff yr argymhelliad ei ddymchwel trwy benderfyniad y tŷ Seneddol perthnasol.

1.9 Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn credu y dylai'r penderfyniad negyddol fod yn berthnasol i'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol hwn ar y sail mai newid mân i'r Ddeddf yw hwn ac yn un na fyddai'n cael unrhyw effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Y baich deddfwriaethol

1.10 Mae Adran 34 Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnig y gallai deiliad trwydded mangre wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol i amrywio'r drwydded. Mae angen amrywiad i unrhyw newid i'r drwydded, gan gynnwys newidiadau i unrhyw nodwedd a ddengys ar gynllun y fangre. Mae Adran 84 y Ddeddf yn gwneud darpariaeth gyfartal mewn perthynas â thystysgrifau mangre clwb.

1.11 Yr unig eithriad yw amrywiad i drwydded mangre i nodi unigolyn fel goruchwyliwr mangre sy'n amodol ar broses hysbysu syml o dan adran 37 y Ddeddf. Nid oes elfen gyfatebol o hyn mewn perthynas â thystysgrifau mangre clwb.

Cynnig y Llywodraeth

1.12 Mae'r Llywodraeth yn cynnig bod Deddf 2003 yn cael ei diwygio i sicrhau darpariaeth ar gyfer proses 'mân' amrywiadau newydd. Byddai hyn yn galluogi ymgeiswyr i wneud addasiadau bach i'w trwyddedau neu dystysgrifau am ffi a heb iddynt orfod hysbysebu'r amrywiad na'i gopïo i bob awdurdod cyfrifol. Byddai'r mesurau hyn yn arwain at arbedion cost o £1.5 - £2.8 miliwn/y flwyddyn, yn dibynnu ar ba ddewis sy'n cael ei ffafrio. Gosodir ffioedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar lefel sy'n galluogi ar gyfer adennill y costau cyfreithlon ac effeithlon i'r awdurdod trwyddedu am weinyddu'r Ddeddf. Felly, gellir disgwyl i'r ffi ar gyfer mân amrywiad fod yn is na'r ffioedd graddedig presennol a godir ar gyfer amrywiadau. Byddai'r ffi'n cael ei gosod gan yr Ysgrifennydd Gwladol trwy offeryn statudol penderfyniad negyddol o dan adrannau 55 (trwyddedau mangre) a 92 (clybiau) Deddf 2003, a fyddai'n cael eu paratoi a'u cyflawni i ddod i rym ar yr un pryd â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y gorchymyn diwygio deddfwriaethol. Yn ogystal, byddai angen newidiadau i'r Rheoliadau sy'n pennu ffurflenni, gweithdrefnau hysbysebu etc (Rheoliadau 2005 Deddf Trwyddedu 2003 gan mwyaf (Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb)) er mwyn darparu ar gyfer y gweithdrefnau newydd. Byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn ffordd debyg i'r ffioedd newydd.

1.13 Byddai'r Gorchymyn yn cael ei ymestyn i Gymru a Lloegr ac ni fyddai'n effeithio ar yr Alban na Gogledd Iwerddon.

1.14 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau lle gwahoddir ymatebion. Gellir dod o hyd i'r holl gwestiynau yn Adran 10.

1.15 Gwahoddir sylwadau hefyd ar yr asesiad o effaith sydd ynghlwm â'r ddogfen ymgynghori hon yn Atodiad B.

1.16 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn dilyn y fformat a gaiff ei argymell gan y Swyddfa Cabinet ar gyfer yr holl gynigion hynny. Mae'r meini prawf sy'n berthnasol i holl ymgynghoriadau'r DU o dan God Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghori yn Atodiad C.

Sut i ymateb

1.17 Y dyddiad cau ar gyfer rhoi ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 20 Chwefror 2008. Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn , anfonwch e-bost o'ch ymateb at licensingconsultation@culture.gov.uk

Os oes well gennych, gallwch gyflwyno copi caled yn y post i:

Simon Richardson

Licensing Minor Variations Team

Tourism Licensing and Economic Impact Division

6th Floor

2-4 Cockspur Street

London SW1Y 5DH

1.18 Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, gallwch gysylltu â'r Tîm Trwyddedu yn y cyfeiriad uchod neu dros y ffôn ar 020 7211 6322 neu 020 7211 6380.

1.19 Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ar y broses ymgynghori ar y papur hwn, cysylltwch â Mythily Manickavasagar, Cydlynydd Ymgynghori, Yr Is-adran Strategaeth, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, Llundain SW1Y 5DH. mythily.manickavasagar@culture.gsi.gov.uk

1.20 Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â chopïau o'r holl ymatebion, ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad gau. Tybir felly y gall eich ymateb fod ar gael yn gyhoeddus. Yn ogystal, gallai'r holl wybodaeth mewn ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn destun cyhoeddi neu ddatgelu o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Os bydd gohebydd yn gofyn am gyfrinachedd, ni ellir sicrhau hyn a bydd ond yn bosibl os ystyrir bod hynny'n briodol o dan y ddeddfwriaeth. Dylai unrhyw gais felly esbonio pam y mae angen cyfrinachedd. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gaiff ei greu gam eich system TG yn cael ei ystyried fel cais felly oni bai eich bod yn cynnwys cais penodol, gydag esboniad, ym mhrif destun eich ymateb.

ADRAN 2: Y BAICH

Y darpariaethau deddfwriaethol perthnasol

2.1 O dan adrannau 34 ac 84 Deddf 2003, rhaid i unrhyw ddeiliad trwydded neu dystysgrif clwb sy'n dymuno amrywio'u trwydded neu dystysgrif gyflwyno cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

2.2 Er mwyn gwneud cais am amrywiad, rhaid i'r deiliad trwydded lenwi ffurflen gais amrywiad penodedig a'i hanfon, ynghyd â'r ffi benodedig, y drwydded neu'r dystysgrif wreiddiol a chynllun o'r fangre a'r cynllun diwygiedig (os yn briodol) at yr awdurdod trwyddedu. Rhaid iddynt hefyd gopïo'r holl ddogfennau i hyd at naw 'awdurdod cyfrifol' (cyrff cyhoeddus fel yr heddlu, awdurdod tân ac achub, etc – gweler paragraff 4.2 isod i gael rhestr lawn), hysbysebu'r cais yn y papur lleol neu gylchlythyr a gosod hysbysiad gyda manylion y cais yn neu ar y fangre berthnasol.

2.3 Cyn belled â na fyddai'r cais i amrywio yn cael yr effaith o naill ai ymestyn y cyfnod y mae'r drwydded yn dod i rym neu amrywio'n sylweddol y fangre y mae'r drwydded yn ymwneud â hi, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi'r cais oni bai ei fod yn cael sylwadau perthnasol gan bartïon â diddordeb (trigolion a busnesau yng nghyffiniau'r fangre) neu gan unrhyw awdurdodau cyfrifol. Rhaid i'r sylwadau ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal poendod i'r cyhoedd;
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.4 Os daw sylwadau i law, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad i'w hystyried (oni bai bod pob parti'n ystyried bod angen hyn) a chymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, gan gynnwys ychwanegu at neu addasu amodau'r drwydded neu'r dystysgrif neu wrthod yr holl gais neu ran ohono.

2.5 Mae'r gofynion hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer cais llawn ac maent yn gosod beichiau a chostau gweinyddol tebyg ar ymgeiswyr, awdurdodau lleol ac awdurdodau cyfrifol.

2.6 Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o geisiadau i amrywio (tua 30%) ar gyfer mân newidiadau (fel ail-leoli bar, symud offer diogelwch i leoliad mwy priodol, neu ychwanegu perfformiad dawns at drwydded ar gyfer sgwâr tref sydd eisoes yn caniatáu unrhyw fath o adloniant arall wedi ei reoleiddio) sy'n annhebygol o effeithio mewn unrhyw ffordd arwyddocaol ar y pedwar amcan trwyddedu.

Beichiau a chostau gweinyddol

2.7 Rhaid i ymgeiswyr:

- lenwi ac anfon ffurflen gais gyda chopi o'r drwydded neu'r dystysgrif, y cynllun gwreiddiol (a chynllun diwygiedig, os yn briodol) at yr awdurdod trwyddedu perthnasol (£15-£80);
- talu ffi (£100–£1905, yn dibynnu ar werth ardrethol y fangre);
- copïo'r holl ddogfennau i hyd at naw awdurdod cyfrifol (£20-£40);
- hysbysebu'r newid arfaethedig mewn papur newydd lleol/cylchlythyr (£200-£400);
- arddangos crynodeb byr o'r cais ar hysbysiad maint A4 ar y fangre neu'n syth y tu allan iddo (£5-£10, ond byddai hyn yn cynyddu ar gyfer mangreoedd mwy o faint y mae angen iddynt arddangos hysbysiadau lluosog).

Amcangyfrifir mai tua **£610** yw cost gyfartalog amrywiad (gan gynnwys ffioedd, a godir ar yr un sail ag ar gyfer cais am drwydded lawn a thua £225 fesul mangre ar gyfartaledd).

Tua **£385** yw cost gyfartalog amrywiad ac eithrio ffioedd**.**

Fodd bynnag, gallai'r costau ychwanegol canlynol fod yn berthnasol i rai amrywiadau:

- cyflenwi cynllun diwygiedig o'r fangre (lle gwneir cais am newidiadau i gynllun) - £25-£500 (e.e. os oes rhaid i'r cynllun gael ei luniadu'n broffesiynol);
- cael cymorth cyfreithiol proffesiynol – £100-£500 (ond mewn nifer fach o achosion, gallai ffioedd cyfreithiol fod mor uchel â £1500).

Os caiff y costau hyn eu hychwanegu, gallai cost gyfartalog yr amrywiad godi i £950 (ac eithrio ffioedd) neu £1170 (gan gynnwys ffioedd).

Felly ystod y costau posibl ar gyfer amrywiad (ac eithrio ffioedd) yw £385 - £950.

Pwy sy'n cael eu heffeithio gan y baich?

2.8 Ar gyfartaledd, mae 20,000 o geisiadau am amrywiad y flwyddyn ar draws yr holl awdurdodau trwyddedu, y byddai rhyw 30% (6000) yn debygol o gael eu dal gan broses mân amrywiadau. Nid yw'r ffigur hwn yn trosi'n uniongyrchol i niferoedd y busnesau neu glybiau sy'n cael eu heffeithio gan y baich, oherwydd gallai rhai mangreoedd gyflwyno nifer o geisiadau i amrywio (e.e. os ydynt yn cynnal gwaith ail-osod mawr mewn siop). Fodd bynnag, hyd yn oed petai hyn yn cael ei ostwng i 5% dyweder er mwyn ystyried ceisiadau niferus, byddai'n dal i olygu bod 5700 o fangreoedd y flwyddyn yn cael eu heffeithio gan y baich am gyfanswm cost blynyddol o £2.3m - £4.3m. Bydd yr ymgeiswyr yn amrywio o siopau adwerthu

mawr a chadwyni tafarn cenedlaethol i glybiau chwaraeon, clybiau gweithwyr a chlybiau gwleidyddol i neuaddau pentref a gaiff eu staffio gan wirfoddolwyr a siopau trwyddedig bach. Bydd cyfran sylweddol o'r mangreoedd hyn yn fentrau bach neu ganolig eu maint.

Diffiniad o faich

2.9 O dan adran 1 Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, mae 'baich' yn golygu unrhyw un o'r canlynol:

- cost ariannol;
- anhwylustod gweinyddol;
- rhwystr i effeithlonrwydd, cynhyrchiant neu broffidrwydd;
- cosb, troseddol neu fel arall, am wneud neu beidio â gwneud unrhyw beth yn ystod unrhyw weithgaredd.

2.10 Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y weithdrefn bresennol ar gyfer amrywio trwydded yn adran 34 y Ddeddf yn cyfansoddi baich o fewn cwmpas pob un o'r pedwar diffiniad yn adran 1.

Cw.1: A ydych chi'n cytuno bod y gofyniad i ddeiliaid trwydded wneud cais am amrywiad i wneud newidiadau bach, risg isel i'w trwydded yn cynrychioli baich fel y diffinnir yn adran 1 Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006?

ADRAN 3: DEWISIADAU AR GYFER TYNNU'R BAICH DYNODEDIG

Diffiniad o fân amrywiad

3.1 Byddai proses mân amrywiadau yn tynnu ymaith y baich nodedig gan ddeiliaid trwyddedau a thystysgrifau, ond byddai hefyd yn tynnu ymaith hawl trigolion a busnesau lleol ac awdurdodau cyfrifol (ac eithrio mewn rhai achosion - gweler paragraffau 4.2 - 4.7 isod) i fod yn ymwybodol o fân amrywiadau ac i wneud sylwadau arnynt, fel y'u diffiniwyd. Felly, mae diffiniad o fân amrywiad yn ganolog i'r cynnig hwn.

3.2 Diben y Ddeddf Trwyddedu yw hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu a ddisgrifiwyd yn gynharach, ac mae sylwadau a wnaed gan bartïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol ar gais i amrywio trwydded neu dystysgrif ond yn 'berthnasol' os ydynt yn ymwneud ag un neu fwy o'r amcanion hyn. Mae'n dilyn mai diffiniad bras iawn o 'fân' amrywiad fyddai 'unrhyw newid i drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb na fydd yn effeithio'n andwyol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'. Byddai diffiniad o'r math hwn yn gofyn i'r awdurdod trwyddedu ffurfio barn o ran a fyddai'r amrywiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar hyrwyddo'r amcanion. Felly, byddai ond yn berthnasol lle gallai'r awdurdod gasglu ymlaen llaw nad oedd unrhyw effaith felly. Ni fyddai'n fodlon petai'r awdurdod yn dod yn ymwybodol o unrhyw risg y byddai hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y cynigion amrywio. Mewn achos felly, ni fyddai'r awdurdod yn gallu casglu bod y prawf wedi'i fodloni, ac felly byddai'n rhaid iddo wrthod y cais. Yn yr achos hwnnw, byddai angen i'r deiliad trwydded neu glwb symud ymlaen o dan y weithdrefn amrywio safonol a ddisgrifir yn adran 2 uchod.

Cw. 2: A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad bras hwn o 'fân amrywiad'? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch ddewis arall.

3.3 Fodd bynnag, mae safbwyntiau'n gwahaniaethu o ran a ddylid gadael awdurdodau trwyddedu i bennu dros eu hunain beth sy'n fân amrywiad ai peidio yn y diffiniad bras hwn, neu a ddylid cyfyngu ar eu doethineb, neu ei dynnu ymaith yn gyfan gwbl, trwy ddiffinio 'mân' yn fwy cul ar wyneb y Ddeddf, e.e. trwy nodi'r hyn y dylid ei gynnwys, a/neu ei eithrio, o broses mân amrywiadau.

3.4 Credwn fod y prif ddewisiadau fel a ganlyn:

Dewis 1: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod ac ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003.

Dewis 2: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd fel uchod, ond gan gyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau.

Dewis 3: Dim newid

3.5 Mae Adrannau 5 - 8 yn trafod sut gellid bodloni'r rhag-amodau a nodir ym mharagraff 1.4 uchod mewn perthynas â Dewisiadau 1 a 2. Mae'r adran hon yn ystyried Dewis 3.

Dewis 3: Dim newid

3.6 Nod y broses amrywiadau bresennol yw sicrhau nad yw deiliaid trwydded yn gwneud newidiadau i'w trwyddedau neu dystysgrifau a allai gael effaith andwyol ar y pedwar amcan trwyddedu. Mae'r gofyniad i hysbysebu'r amrywiad arfaethedig a'i gopïo i bob awdurdod cyfrifol yn sicrhau bod partïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig a chyflwyno'u safbwyntiau mewn gwrandawiad ffurfiol. Ddwy flynedd i mewn i'r gyfundrefn drwyddedu newydd, ceir tystiolaeth dda o drigolion a busnesau lleol yn cymryd rhan yn weithgar mewn penderfyniadau trwyddedu a dylanwadu arnynt a dyma un o brif lwyddiannau'r Ddeddf.

3.7 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, gellid disgwyl i gyfran sylweddol o newidiadau bach i drwyddedau gael ychydig effaith os o gwbl ar yr amcanion trwyddedu. Er enghraifft, tafarn yn ychwanegu lluniaeth yn hwyr yn y nos yn unol â'i horiau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol a darparu adloniant wedi ei reoleiddio; neu dŷ bwyta sy'n dymuno dangos perfformiadau gitâr acwstig byw yn ystod dechrau'r nos. Yn yr achosion hyn, mae angen i ddeiliaid trwydded a thystysgrif clwb fynd trwy'r broses amrywiad yn llawn, gyda'r costau a'r baich gweinyddol canlynol, pan nad oes unrhyw risgiau i'r amcanion trwyddedu a gellid disgwyl i bartïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol fod ag ychydig ddiddordeb os o gwbl yn y newidiadau arfaethedig. Mae'r system bresennol yn costio £2.3 - £4.3 miliwn y flwyddyn i ddeiliaid trwydded a thystysgrif clwb - arian y gellid ei fuddsoddi'n ôl i mewn i fusnesau, clybiau, neuaddau pentref, etc er mwyn darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwell i gwsmeriaid a'r gymuned ehangach.

3.8 Un canlyniad o'r system bresennol yw bod rhai busnesau'n gwneud mân newidiadau i'w mangreoedd heb wneud cais am amrywiad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol, ond mae cost yn ffactor hefyd, yn enwedig i fusnesau bach. Mae hyn yn effeithio ar weithrediad effeithiol y gyfundrefn drwyddedu sef bod:

- y deiliad trwydded yn penderfynu a yw newid yn un mân ai peidio. Yn anochel, bydd rhai newidiadau gydag effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu yn llithro trwy'r rhwyd;
- gallai nifer o newidiadau bach dros gyfnod o amser fod yn 'fân' yn eu hunain, ond gallent gael effaith gynyddol ar yr amcanion trwyddedu;
- pan fydd eiddo trwyddedig yn cael ei werthu, ni fydd y drwydded yn un diweddar.

3.9 Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y broses amrywiadau bresennol yn cynrychioli baich diangen ar ddeiliaid trwydded ac yn tanseilio'r Ddeddf trwy annog deiliaid trwyddedau a thystysgrifau clwb i dorri'r gyfraith. Yn hynny o beth, mae'r Llywodraeth yn dueddol o wrthod Dewis 3.

Cw.3: A ydych chi'n cytuno nad yw'r risg i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu o fân amrywiadau i drwyddedau yn cyfiawnhau'r lefel bresennol o reolaeth a gaiff ei rhoi gan adrannau 34-36 ac 84-86 Deddf Trwyddedu 2003?

Cw.4: A ydych chi'n cytuno y dylid gwrthod Dewis 3 – Dim Newid? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried materion eraill sy'n berthnasol i Ddewisiadau 1 a 2.

Ymgynghoriad gydag awdurdodau cyfrifol

4.2 Ar hyn o bryd, rhaid i ddeiliaid trwyddedau neu dystysgrifau gopïo ceisiadau i amrywio i hyd at naw 'awdurdod cyfrifol' am gost o rhwng £20 a £40 yn dibynnu ar natur yr amrywiad, maint y cynllun, etc. Gallai awdurdodau cyfrifol wneud sylwadau ar y cais i'r awdurdod trwyddedu os oes ganddynt bryderon mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu. Fel rheol, byddant yn rhoi sylwadau ar faterion yn eu maes arbenigedd penodol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i wneud hynny.
Ar hyn o bryd, yr awdurdodau cyfrifol statudol yw:

- prif swyddog yr heddlu;
- yr awdurdod tân ac achub lleol;
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am iechyd yr amgylchedd;
- yr asiantaeth orfodi leol ar gyfer Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (naill ai'r awdurdod lleol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau;
- y corff amddiffyn plant perthnasol;
- yr awdurdod cynllunio lleol;
- yr awdurdod pwysau a mesurau lleol (safonau masnach);
- unrhyw awdurdod trwyddedu, ar wahân i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, y mae unrhyw ran o'r fangre wedi'i lleoli yn ei ardal.

4.3 Mae'r gofyniad i ymgynghori â phob awdurdod cyfrifol wedi'i nodi'n rhan o'r baich ar fusnes ac felly dylai unrhyw broses mân amrywiadau anelu at ei dynnu ymaith neu ei leihau. Mewn egwyddor, os caiff amrywiad ei ddal gan y broses mân amrywiadau ni ddylai, yn ôl diffiniad, effeithio ar yr amcanion trwyddedu ac felly ni ddylai fod angen ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol. Fodd bynnag, gallai gofyniad i ymgynghori â rhai awdurdodau cyfrifol 'craidd' roi sicrwydd ychwanegol i drigolion a phartïon eraill â diddordeb na fydd amrywiadau sy'n cyflwyno unrhyw risg i'r amcanion trwyddedu yn llithro trwy'r rhwyd. Bydd yna rai achosion hefyd lle mae angen i'r awdurdod trwyddedu geisio safbwyntiau arbenigol yr awdurdod cyfrifol perthnasol er mwyn dod at benderfyniad deallus. Y cwestiwn yw a ddylai fod angen i ymgeiswyr ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol penodol ym mhob achos, neu awdurdodau cyfrifol perthnasol yn unig fel y maent yn barnu'n angenrheidiol.

4.4 Mae gan y gofyniad i ymgynghori ag awdurdod cyfrifol penodol rywfaint o gynsail mewn cyfraith trwyddedu. Er enghraifft, awdurdod yr heddlu yw'r unig ymgynghorai i roi gwybod iddynt am ddigwyddiad dros dro. Fodd bynnag, mae'r ystod eang o geisiadau amrywio'n golygu ei bod hi'n anodd iawn nodi un awdurdod cyfrifol neu'n fwy a fydd yn briodol bob amser ac ymgyngoreion defnyddiol ym mhob achos. Byddai o fawr o werth, er enghraifft, ac yn wastraff o'u hadnoddau, i ymgynghori â'r heddlu ar newid bach i gynllun tŷ bwyta neu ymgynghori ag awdurdod iechyd yr amgylchedd ar dynnu ymaith hen amod yn ymwneud â diogelwch wrth y drysau. Byddai hyn hefyd yn ychwanegu haen ddiangen o fiwrocratiaeth a chost i mewn i'r hyn a ddylai fod yn broses syml.

4.5 Felly mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid gadael y penderfyniad ynghylch ymgynghori ag un awdurdodau cyfrifol neu fwy ai peidio i ddoethineb yr awdurdod trwyddedu, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr amrywiad. Rhagwelir y byddai angen hyn ar gyfer nifer fach o fân amrywiadau yn unig ac felly bydd yn arwain at fiwrocratiaeth a'r gost isaf posibl. Mae hyn yn hynod berthnasol i Ddewis 1, lle byddai gan yr awdurdod trwyddedu ddoethineb eang, ond gallai hefyd fod yn berthnasol i Ddewis 2, yn dibynnu ar sut y diffinnir 'mân'.

4.6 Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr, mae'r Llywodraeth yn argymell hefyd, o dan broses mân amrywiadau, y dylai'r cyfrifoldeb i gopïo papurau cais i awdurdodau cyfrifol gael eu trosglwyddo o'r ymgeisydd i'r awdurdod trwyddedu.

4.7 Dylai'r gofyniad hwn ddarparu sicrwydd ychwanegol i drigolion a phartïon eraill â diddordeb na fydd amrywiadau gyda goblygiadau posibl i'r amcanion trwyddedu yn 'llithro trwy'r rhwyd' heb osod baich gweinyddol diangen ar ddeiliaid trwydded, awdurdodau cyfrifol ac awdurdodau trwyddedu.

Cw.5: A ydych chi'n cytuno y dylai bod angen i awdurdodau trwyddedu ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel y maent yn barnu'n angenrheidiol yn unig, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y cais i amrywio?

Cw.6: Os nad ydych, pa drefniadau ydych chi'n credu a ddylai fod ar waith, a pham?

Apeliadau

4.8 O dan y broses amrywio bresennol, gallai'r ymgeisydd apelio i'r llys ynadon os caiff eu cais ei wrthod. Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylai ymgeiswyr gael cymorth tebyg petai'r awdurdod trwyddedu'n gwrthod eu cais i gael amrywiad wedi'i ystyried trwy'r broses 'mân' ac yn gofyn am gais amrywiad llawn. Mae hyn yn hynod berthnasol i Ddewis 1 lle byddai gan yr awdurdod trwyddedu rym gwneud penderfyniadau eang, ond gallai hefyd fod yn berthnasol i Ddewis 2 petai'r awdurdod trwyddedu'n cadw rhywfaint o ddoethineb.

4.9 Fodd bynnag, barn y Llywodraeth yw nad yw'r un amodau yn berthnasol oherwydd bod penderfyniad yr awdurdod trwyddedu i brosesu'r cais fel amrywiad llawn yn benderfyniad dros dro yn unig. Mewn geiriau eraill, nid gwrthod yr amrywiad ydyw, ond cyfeirio ato ar gyfer lefel wahanol o ystyriaeth. Mewn unrhyw achos, fel rheol gellir rhagweld y bydd ymgeiswyr yn cysylltu â'r awdurdod trwyddedu yn y lle cyntaf os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch a yw amrywiad yn debygol o fod yn fân ai peidio. Byddai hawl i apelio hefyd yn ychwanegu haen ddiangen o fiwrocratiaeth i broses syml ac yn rhoi beichiau ychwanegol ar system y llysoedd.

4.10 Mewn eithriadau, gallai ymgeiswyr mewn ardal benodol boeni nad yw'r awdurdod trwyddedu yn gorfodi'r broses mân amrywiadau mewn ffordd sy'n gyson â'r gyfraith. Yn yr achos hwn, gallai ymgeiswyr naill ai geisio adolygiad barnwrol neu wneud cwyn i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, rhagwelir mai prin y bydd y sefyllfa hon yn codi a dylai'r Arweiniad statudol roi digon o fanylder i sicrhau bod yr awdurdodau trwyddedu yn deall ac yn dilyn y broses newydd.

4.11 Felly, mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid cael unrhyw hawl i apelio petai'r awdurdod trwyddedu'n gwrthod cais i ystyried amrywiad trwy'r broses mân amrywiadau.

Cw.7: A ydych chi'n cytuno na ddylid cael hawl i apelio yn erbyn awdurdod trwyddedu os yw'n gwrthod cais i brosesu amrywiad trwy'r broses mân amrywiadau? Os na, esboniwch pam.

Amseriad

4.12 Wrth dderbyn cais am fân amrywiad, bydd angen amser ar yr awdurdod trwyddedu i ystyried y cais, ac ymgynghori ag un awdurdod cyfrifol perthnasol neu fwy os oes angen naill ai cyn: cymeradwyo'r amrywiad; neu ei gyfeirio at y broses amrywiad yn llawn. Gallai fod angen mwy o amser ar awdurdodau trwyddedu i ystyried ceisiadau o dan Ddewis 1 nag o dan Ddewis 2 (yn dibynnu ar sut y caiff ei ddiffinio), ond dylai Arweiniad cynhwysfawr helpu i hwyluso'r broses. Mae'r Llywodraeth yn argymell, ar gyfer y ddau ddewis, y dylai cyfnod o ddeng niwrnod gwaith fod yn ddigon i'r awdurdod trwyddedu ddod i benderfyniad.

4.13 Yn yr achos bod yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu y dylai amrywiad fynd trwy'r broses amrywiad yn llawn, mae'r Llywodraeth yn ystyried y dylai'r broses fod yn ddigyfnewid; hynny yw, y dylai trigolion ac awdurdodau cyfrifol barhau i gael 28 diwrnod llawn i ystyried y cais a gwneud sylwadau os oes angen. Mae'n ystyried hefyd y dylai fod angen i'r ymgeisydd gopïo'r cais i bob awdurdod cyfrifol, gan gynnwys unrhyw un y gellid bod wedi ymgynghori â nhw'n flaenorol gan yr awdurdod trwyddedu.

Cw.8: A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau trwyddedu gael 10 niwrnod gwaith i ystyried y ceisiadau mân amrywiad a naill ai cytuno ar yr amrywiad neu ofyn i'r ymgeisydd ei gyflwyno i'r broses amrywiad yn llawn?

Cw.9: Os nad ydych, pa gyfnod ydych chi'n credu fyddai'n briodol?

Cw.10: A ydych chi'n cytuno y dylai 28 diwrnod llawn fod yn berthnasol os yw'r awdurdod trwyddedu'n penderfynu y dylai amrywiad gael ei brosesu trwy'r weithdrefn lawn? Os na, esboniwch pam.

Cw.11: A ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i'r ymgeisydd gopïo'r cais i bob awdurdod cyfrifol, gan gynnwys y rhai yr ymgynghorwyd â nhw'n flaenorol, os caiff yr amrywiad ei gyfeirio at y weithdrefn lawn? Os nad ydych, esboniwch pam.

Gwneud penderfyniadau

4.14 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylai swyddogion trwyddedu yn hytrach na'r pwyllgor trwyddedu allu gwneud penderfyniad o ran a yw amrywiad yn fân ai peidio. Dylai unrhyw risg i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fod yn glir o delerau'r cais. Ni ddylai unrhyw beth tebyg i achos "ffiniol" fynd trwy'r broses mân amrywiad, yn ôl diffiniad rhaid bod absenoldeb unrhyw risg i hyrwyddo'r amcanion er mwyn i'r weithdrefn fod yn berthnasol. Byddai cais a oedd yn gofyn am ystyriaeth fanwl gan y pwyllgor trwyddedu, bron trwy ddiffiniad, yn achos *na* ddylai gweithdrefn fod yn berthnasol iddo.

Cw.12: A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogion trwyddedu yn hytrach na'r pwyllgor trwyddedu allu gwneud penderfyniadau ar fân amrywiadau (lle mae hynny'n briodol)? Os nad ydych, esboniwch pam.

ADRAN 5: A ELLID CYFLAWNI'R CYNNIG DRWY DDULL ANNEDDFWRIAETHOL?

5.1 Mae'r gofynion i ddeiliaid trwyddedau a thystysgrifau gyflwyno ceisiadau i amrywio eu trwyddedau'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol. Ni ellir eu newid trwy is-ddeddfwriaeth (ar wahân i orchmynion diwygio deddfwriaethol).

5.2 Er bod awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi Canllawiau i awdurdodau trwyddedu o dan adran 182 o'r Ddeddf, does ond raid i awdurdodau trwyddedu 'eu hystyried' ac ni allant beri newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol neu reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2003 na cheisio dylanwadu ar benderfyniadau awdurdodau sy'n erlyn. Hefyd, nid oes raid i'r heddlu nac awdurdodau rheoleiddio eraill eu hystyried.

5.3 Mae'r Llywodraeth yn fodlon na ellir cyflawni proses mân amrywiadau ar gyfer newidiadau i drwyddedau nad ydynt yn effeithio ar amcanion trwyddedu drwy:

- unrhyw gytundebau gwirfoddol rhwng llywodraeth ganolog, awdurdodau trwyddedu a'r heddlu;
- newidiadau i'r Arweiniad statudol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o Ddeddf 2003; neu
- newidiadau i'r rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan eu pwerau yn Neddf 2003.

5.4 Mae'r Llywodraeth felly'n fodlon na ellir cyflawni'r newid a gynigir yn Dewisiadau 1 a 2 trwy ddull anneddfwriaethol.

Cw.13: A ydych chi'n cytuno na ellir cyflawni'r newidiadau angenrheidiol a nodir o dan Dewisiadau 1 a 2 trwy ddull anneddfwriaethol? Os ydych chi'n credu y gellir sicrhau newidiadau trwy ddull anneddfwriaethol, rhowch eich rhesymau.

ADRAN 6: A YW'R CYNNIG YN GYMESUR AG AMCAN Y POLISI?

6.1 Mae mangreoedd a reoleiddir o dan y Ddeddf yn amrywio o neuaddau pentref a chymuned, clybiau gwleidyddol a chwaraeon, siopau bach, sinemâu a neuaddau cyngerdd i adwerthwyr mawr a thafarndai cadwyn. Mae'r busnesau, sefydliadau a'r clybiau hyn yn cyfrannu at yr economi cenedlaethol a lleol, ac mewn nifer o achosion, maent hefyd yn cyfrannu at fywyd diwylliannol a chymunedol trwy gynnal cerddoriaeth fyw, dramâu, gweithgareddau sinema ac eraill.

6.2 Mae'r broses amrywiadau bresennol yn rhoi baich diangen ar ddeiliaid trwydded a thystysgrif sy'n dymuno gwneud newidiadau bychan, risg isel i'w trwyddedau neu dystysgrifau, ac mae'n arallgyfeirio arian y gellid ei ddefnyddio i ehangu neu wella eu busnesau neu hybu chwaraeon ar y lefel isaf yn achos clybiau chwaraeon, neu i ddarparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau diwylliannol ac adloniant, yn achos neuaddau pentref a chymuned.

6.3 Mae'r Llywodraeth yn credu bod cyflwyno proses mân amrywiadau fydd wedi'i chyfyngu i fân newidiadau, risg isel heb unrhyw effaith niweidiol ar amcanion trwyddedu, yn sicrhau dull cymesur, wedi'i dargedu.

6.4 Yn ogystal â pholisi'r Llywodraeth a amlinellir uchod, mae amcanion pwysig o ran diogelu'r cyhoedd ac amcanion polisi eraill sy'n rhan annatod o'r drefn drwyddedu. Er mwyn rhoi sylw i'r ystyriaethau hyn mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar wahanol ddewisiadau ar gyfer gweithredu'r cynigion i gyflwyno proses mân amrywiadau. Trafodir y rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen ymgynghori hon.

Cw.14: A ydych chi'n cytuno bod y cynnig i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau yn gymesur â'r amcanion polisi a amlinellir uchod?

ADRAN 7: A YW'R CYNNIG YN SICRHAU CYDBWYSEDD TEG RHWNG BUDD Y CYHOEDD A DIDDORDEBAU UNRHYW UN A EFFEITHIR YN NIWEIDIOL GANDDO?

Beth yw budd y cyhoedd?

7.1 Mae budd y cyhoedd yn ymwneud â diogelu:

- pobl sy'n byw yng nghyffiniau mangreoedd trwyddedig y gallai trosedd yn gysylltiedig ag alcohol ac anhrefn a niwsans cyhoeddus darfu arnynt;
- y cyhoedd ehangach a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan drosedd yn gysylltiedig ag alcohol ac anhrefn a niwsans cyhoeddus;
- y rhai sy'n agored i niwed (e.e. plant);
- cwsmeriaid a allai fod mewn risg yn sgil mesur annigonol neu ddiffyg mesurau mewn mangreoedd trwyddedig i ddiogelu'r cyhoedd; a
- chymdeithas a niweidir gan drosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus.

7.2 Ond mae budd cyhoeddus hefyd o ran sicrhau bod mangreoedd a chlybiau trwyddedig - yn arbennig mentrau bach a chanolig eu maint a sefydliadau gwirfoddol - yn hyfyw yn economaidd ac yn gallu parhau i ddarparu amrediad eang o wasanaethau i'r gymuned. Mae hyn yn golygu cael gwared ar faich gweinyddol neu faich costau diangen a rhyddhau arian y gellid ei ddefnyddio i wella busnesau a chyfleusterau a darparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a'r gymuned ehangach. Mae clybiau a neuaddau pentref a chymuned, er enghraifft, yn ganolbwynt i gymunedau lleol ac maent yn darparu amrediad eang o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol ac addysgol. Mae mentrau masnachol, fel tafarndai, yn darparu swyddi a buddsoddiad mewnol sy'n cyfrannu at fywiogrwydd economaidd ardal, tra bod sinemâu, neuaddau cyngerdd a chyfleusterau adloniant eraill yn cyfoethogi ein bywyd diwylliannol.

7.3 Gellid dadlau hefyd bod budd cyhoeddus o ran caniatáu i benderfyniadau sy'n effeithio ar bobl leol gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol yn hytrach nag o bell gan y Llywodraeth ganolog. Mae Papur Gwyn diweddar ar lywodraeth leol yn ymrwymo'r Llywodraeth i ddatganoli mwy o benderfyniadau i lefel leol ac mae'n nodi'r manteision, fel y gallu i addasu polisïau i amgylchiadau lleol penodol.

7.4 Mae sicrhau y cyflawnir cydbwysedd teg rhwng y budd cyhoeddus a nodwyd a budd y rhai y gallai'r cynnig gael effaith niweidiol arnynt yn dibynnu ar lefel y risg sy'n debygol o ddigwydd o dan broses mân amrywiadau. Mewn geiriau eraill, pa mor debygol yw hi y bydd amrywiadau sy'n effeithio'n niweidiol ar yr amcanion trwyddedu'n 'llithro drwy'r rhwyd'.

A yw Dewis 1 yn sicrhau cydbwysedd teg?

Dewis 1: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod gan ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

7.5 Mae'n bosibl y byddai ychydig mwy o risg yn perthyn i'r dewis hwn o'i gymharu â Dewis 2 oherwydd ei fod yn rhoi mwy o ddisgresiwn i'r awdurdod trwyddedu. Hefyd gallai fod pryderon y byddai'n arwain at anghysondebau yn y ffordd y byddai'r gwahanol awdurdodau trwyddedu'n dehongli hyn, ac yn ei sgil, ddiffyg eglurder i bartïon â diddordeb, awdurdodau cyfrifol a'r fasnach. Ond yn ymarferol, mae'r risg yn debygol o fod yn fach iawn.

7.6 Yn ystod y ddwy flynedd o weithredu'r Ddeddf, mae swyddogion trwyddedu wedi ennill profiad gwerthfawr a ddylai eu galluogi i ddod i benderfyniadau cytbwys yn annibynnol, yn y rhan fwyaf o achosion. Er mwyn eu harwain a'u cefnogi wrth wneud y penderfyniadau hyn, byddai'r Llywodraeth yn darparu atodiad cynhwysfawr i'r Arweiniad statudol i'r Ddeddf fyddai'n amlinellu meini prawf ac enghreifftiau cyffredinol i ddangos pryd byddai'r broses mân amrywiadau'n berthnasol, fel y nodir yn y testun ym mharagraffau 7.13 - 7.20 isod. Byddai'r gofyn i ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol perthnasol pe bai angen yn gam pellach i sicrhau bod pob achos yn cael ei brosesu'n briodol.

7.7 Wrth gwrs all unrhyw system fyth weithredu'n hollol berffaith, ac mae'n dal yn bosibl (er yn hynod annhebygol) y gallai amrywiad fyddai'n risg i hybu'r amcanion trwyddedu, lithro i'r broses mân amrywiadau. Ond, pe bai problemau'n codi yn ddiweddarach o safbwynt yr amcanion trwyddedu, gallai partïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol wneud cais i drwydded neu dystysgrif y mangre clwb gael ei adolygu unrhyw bryd.

7.8 Rhaid pwyso a mesur y lefel fach o risg sy'n weddill o dan Dewis 1 yn erbyn y manteision i'r budd cyhoeddus. Drwy ganiatáu i awdurdodau trwyddedu ymarfer eu disgresiwn a'u barn gytbwys, mae'n debyg y byddai'r dewis hwn yn sicrhau "mân" amrywiadau mwy priodol nag Dewis 2, ac yn sgil hynny byddai llawer llai o feichiau gweinyddol a mwy o arbedion cost - amcangyfrifir tua £2.2 – 2.8m y flwyddyn. Byddai Arweiniad statudol clir a chynhwysfawr yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau trwyddedu, yn arbennig mewn meysydd fel oriau trwyddedu.

7.9 Felly yn nhyb y Llywodraeth, mae cydbwysedd rhwng y risgiau lleiaf i'r rhai a allai gael eu heffeithio'n niweidiol gan y cynigion yn Dewis 1 â'r manteision i fudd y cyhoedd yn ehangach.

Cw.15: A ydych chi'n cytuno bod Dewis 1 yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a budd y rhai yr effeithir yn niweidiol arnynt gan y cynnig? Os nad ydych, esboniwch pam.

A yw Dewis 2 yn sicrhau cydbwysedd teg?

Dewis 2: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd fel uchod, ond gan gyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

7.10 Mewn theori, mae'r dewis hwn yn golygu bod llai o le i gamgymeriadau trwy nodi beth sydd/neu sydd ddim yn fân amrywiad i ddibenion y Ddeddf a thrwy hynny gyfyngu ar ddisgresiwn awdurdod lleol. Gellid cyflawni hyn trwy'r canlynol:

- diffiniad **cadarnhaol** sy'n nodi pa fathau o amrywiadau fydd yn cael eu trin fel mân amrywiadau i ddibenion y Ddeddf, e.e. rhai newidiadau bach i gynllun;
- diffiniad **negyddol** sy'n nodi amrywiadau y dylid eu heithrio o broses mân amrywiadau, e.e. ymestyn oriau trwyddedu; neu
- **cyfuniad (neu amrywiol gyfuniadau)** o'r ddau e.e. mae newid bach i gynllun mangre yn fân amrywiad, ac eithrio pan fo hyn yn effeithio ar allanfeydd tân, etc.

7.11 Gellid dadlau y byddai Dewis 2 yn rhoi mwy o sicrwydd i bartïon â diddordeb na fydd amrywiadau amhriodol yn llithro i'r broses mân amrywiadau, a byddai'n sicrhau dull mwy cyson ar draws yr holl awdurdodau trwyddedu (er y gellid dadlau bod modd cyfiawnhau gwahaniaethau o ran dehongli os ydynt yn adlewyrchu gwahanol amodau lleol).

7.12 Ond rhaid cydbwyso'r manteision posibl hyn yn erbyn y ffaith y bydd unrhyw ddiffiniad o fân amrywiad, waeth pa mor ofalus y cyflwynir ef, bob amser yn eithrio rhai amrywiadau na fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu a byddai'n cynnwys rhai a fyddai'n cael effaith niweidiol, ar draul budd y cyhoedd, fel y diffinnir.

7.13 Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, y byddai'r rhan fwyaf o'r mân amrywiadau (tua 70%) o dan y broses newydd yn cynnwys newidiadau bychan i'w cynllun. Felly gallai diffiniad ceidwadol o fân amrywiad fod yn 'unrhyw newid i gynllun mangre' gyda rhai cafeatau e.e. lle nad yw hyn yn arwain at fwy o gapasiti i yfed neu flocio allanfeydd tân. Byddai'r diffiniad cyfyng iawn hwn yn lleihau'r risg o gamgymeriadau ac yn sicrhau lefel uwch o gysondeb ar draws awdurdodau trwyddedu, ond gallai arwain at amrywiadau amhriodol yn cael sylw (drwy'r broses mân amrywiadau pe na bai'r rhestr cafeatau'n 100% gynhwysfawr - canlyniad anodd iawn ei sicrhau, o ystyried nad oes modd gwybod am yr holl achosion posibl ymlaen llaw. Byddai hefyd yn eithrio nifer sylweddol o amrywiadau (y 30% fyddai'n weddill) na fyddai'n cael unrhyw effaith niweidiol ar y pedwar amcan trwyddedu.

7.14 Gellid ehangu'r diffiniad i gynnwys mathau eraill o amrywiadau, fel newidiadau i oriau trwyddedu, gweithgareddau ac amodau trwyddedadwy, ond byddai anawsterau tebyg yn debygol o godi fel y dengys y paragraffau canlynol.

Oriau trwyddedu

7.15 Gall ymestyn oriau trwyddedu mewn tafarndai, clybiau a mangreoedd eraill fod yn ddadleuol os oes pryderon cyhoeddus ynghylch yr effaith bosibl ar drosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Ond nid dyma'r achos bob tro ac mae yna amgylchiadau lle na fyddai newid neu ymestyn oriau trwyddedu'n cael unrhyw effaith niweidiol ar amcanion trwyddedu. Er enghraifft:

- cais gan dafarn wledig unigol mewn lleoliad unig i agor am un awr ychwanegol gyda'r nos;
- cais gan far i ymestyn ei drwydded i werthu lluniaeth yn hwyr y nos er mwyn cynnig bwyd poeth, te a choffi i'w gwsmeriaid yn y cyfnod ar ôl rhoi'r gorau i werthu alcohol;
- cais gan sinema i aros ar agor am awr yn hwyrach gyda'r nos i ddangos ffilmiau hirach;
- neuadd bentref yn ymestyn trwydded alcohol sy'n gyfyngedig i ddigwyddiadau gyda'r nos er mwyn caniatáu i win cynnes gael ei werthu mewn ffair Nadolig gan yr eglwys neu ddarparu gwin mewn cinio Nadolig i bensiynwyr;
- cais gan archfarchnad i'w oriau trwyddedu fod yr un fath â'r oriau agor cyffredinol ar gyfer adwerthu nwyddau eraill.

Yn yr un modd, gallai rhai wneud cais i leihau eu horiau trwyddedu, er enghraifft i gael gwared ag amodau beichus.

Gweithgareddau trwyddedadwy

7.16 Er bod y cyhoedd a'r cyfryngau'n tueddu i roi'r ffocws ar drwyddedu alcohol, mewn gwirionedd mae'r Ddeddf Drwyddedu'n cynnwys amrediad eang o weithgareddau trwyddedadwy o werthu a chyflenwi alcohol i berfformio dawnsfeydd, cerddoriaeth neu ffilm, gornestau bocsio neu ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau'n golygu ei bod yn anodd cyffredinoli wrth benderfynu beth ddylid neu na ddylid ei gynnwys mewn proses mân amrywiadau.

7.17 Er enghraifft, gallai ychwanegu cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio effeithio ar yr amcan niwsans cyhoeddus, ond gallai hyn ddibynnu ar natur y gerddoriaeth - er enghraifft, byddai gwahaniaeth rhwng noson acwstig 'meic agored' fyddai'n denu cerddorion amatur a chynulleidfa fach a banc roc swnllyd gyda nifer fawr o ddilynwyr. Mae nifer o achosion lle bydd cerddoriaeth fyw yn arbennig yn cael ychydig neu ddim effaith ar yr amcanion trwyddedu.

7.18 Yn yr un modd, gallai ychwanegu mathau eraill o adloniant a reoleiddir at drwydded gael ychydig neu ddim effaith ar yr amcanion trwyddedu. Er enghraifft, os yw'r holl offer priodol gan neuadd bentref, os yw wedi gwneud yr holl archwiliadau iechyd a diogelwch ac wedi cynnal asesiad risg tân, yna byddai ychwanegu perfformiad o ddramâu neu ddangos ffilmiau at drwydded yn annhebygol o effeithio'n niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Mewn gwirionedd byddai'n cyfoethogi'r gymuned leol trwy ehangu'r amrediad o weithgareddau ar gael.

Amodau trwyddedu

7.19 Rhaid i amodau'r drwydded neu dystysgrif clwb fod yn gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu, ac ar y sail honno, gellid dadlau na ddylid eu cynnwys mewn unrhyw broses mân amrywiadau. Ond mae mangreoedd yn newid dros amser ac mae'n bosibl nad yw'r amgylchiadau a arweiniodd yn wreiddiol at gynnwys neu gynnig yr amod bellach yn berthnasol. Efallai nad oes angen goruchwylio drysau, er enghraifft os yw bar wedi'i addasu'n dŷ bwyta. Yn yr un modd gallai newidiadau mewn deddfwriaeth olygu nad yw rhai amodau'n ddilys. Er enghraifft, di-rymwyd yr holl amodau'n gysylltiedig â diogelwch tân a orfodwyd ar drwyddedau yn y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) diweddar.

7.20 Hefyd gallai fod yna nifer fach o achosion lle nad yw amod wedi'i fynegi'n glir (er y rhybuddir yn glir yn erbyn hyn yn y Canllawiau i'r Ddeddf). Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod wedi digwydd yn ystod y cyfnod trosiannol pan oedd awdurdodau trwyddedu dan bwysau i addasu trwyddedau a thystysgrifau presennol erbyn y dyddiad terfyn statudol.

7.21 Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos mor anodd yw diffinio mân amrywiad mewn ffordd na fyddai'n eithrio o leiaf rai amrywiadau na fyddai'n risg i hybu'r amcanion trwyddedu. Bydd y ganran a eithrir yn amrywio, yn dibynnu ar sut y diffinnir mân amrywiad. Os byddwn yn dehongli 'mân' mewn ffordd geidwadol fel unrhyw newid bychan i gynllun nad yw'n effeithio ar yr amcanion trwyddedu, byddai hyn yn eithrio tua 30% o amrywiadau risg isel, gan leihau'r arbedion uchaf o ran costau o £0.7 - £0.8m. Yn groes i hyn, byddai diffiniad mwy eang a fyddai ond yn eithrio newidiadau i oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed yn y mangre, yn debygol o eithrio tua 5% o amrywiadau risg isel, gan leihau'r arbedion posibl o ran costau o ddim ond £0.1m.

7.22 A fydd y dewis hwn yn sicrhau cydbwysedd teg? Yn nhyb y Llywodraeth bydd hynny'n dibynnu ar y ffordd y diffinnir mân amrywiad. Mae diffiniad ceidwadol yn annhebygol o sicrhau cydbwysedd teg oherwydd byddai'r lleihad mewn risg yn cael ei orbwyso yn sgil eithrio cyfran sylweddol o amrywiadau na fyddai'n cael unrhyw effaith ar yr amcanion trwyddedu, a hynny ar draul budd y cyhoedd. Byddai dehongliad mwy eang yn sicrhau cydbwysedd teg trwy leihau risg i lefel dderbyniol, ond gan eithrio dim ond 5% o fân amrywiadau posibl.

Cw.16: A ydych chi'n cytuno y bydd llwyddiant y Dewis hwn i sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a diddordebau'r rhai a effeithir yn niweidiol gan y cynnig yn dibynnu ar sut y diffinnir mân amrywiad? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.17: Sut ydych chi'n meddwl y dylid diffinio mân amrywiad er mwyn sicrhau cydbwysedd teg? Manylwch a chyfeiriwch at y pedwar math o amrywiad a amlinellir ym mharagraff 7.10.

ADRAN 8: A FYDDAI GORCHYMYN YN DILEU UNRHYW DDIOGLEWCH CYHOEDDUS ANGENRHEIDIOL?

8.1 Byddai Dewisiadau 1 a 2 yn cael eu cyflwyno drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol o dan y Ddeddf Diwygio Rheoleiddiol 2006.

Sut mae'r trefniadau presennol yn cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd?

8.2 Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r broses amrywiadau'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddiogelu:

- pobl sy'n byw yng nghyffiniau mangreoedd trwyddedig y gallai trosedd yn gysylltiedig ag alcohol ac anhrefn a niwsans cyhoeddus darfu arnynt;
- y cyhoedd ehangach a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan drosedd yn gysylltiedig ag alcohol ac anhrefn a niwsans cyhoeddus;
- y rhai sy'n agored i niwed (e.e. plant);
- cwsmeriaid a allai fod mewn risg yn sgil mesur annigonol neu ddiffyg mesur mewn mangreoedd trwyddedig i ddiogelu'r cyhoedd a
- chymdeithas a niweidir gan drosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus.

Y cwestiwn i'w ystyried yw a fydd cyflwyno proses mân amrywiadau'n dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol o safbwynt y cyhoedd.

Beth yw diogelwch angenrheidiol yn y cyd-destun hwn?

8.3 Mae'r broses amrywiadau bresennol yn ddull i sicrhau bod partïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol yn ymwybodol o newid arfaethedig mewn trwydded neu dystysgrif a'u bod yn gallu cyflwyno sylwadau os ydynt yn teimlo y bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Mae'r amcanion hynny'n diffinio cwmpas y sylwadau y gallant eu cyflwyno, a'r amrediad o fesurau y mae awdurdod trwyddedu'n gallu eu cymryd mewn ymateb iddynt. Felly mae natur diogelwch y cyhoedd o dan y Ddeddf yn gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu, ac os na chyflawnir yr amcanion hynny, nid yw'n bosibl, trwy ddiffiniad, i golli diogelwch o dan y Ddeddf.

8.4 Bwriad y cynigion a drafodir yn y papur hwn yw dileu unrhyw ddiogelwch diangen - sydd wedi golygu bod baich gweinyddol ar ddeiliaid trwyddedau neu dystysgrifau clwb - ond i gadw lefel 'angenrheidiol' o ddiogelwch trwy sicrhau bod amrywiadau sy'n peri unrhyw risg i'r amcanion trwyddedu'n parhau i gael eu hystyried o dan y broses amrywiadau lawn. Byddai'r unig risg o golli diogelwch yn digwydd yn sgil delio ag achosion amhriodol o dan y broses mân amrywiadau. Yn nhyb y Llywodraeth ar yr amod bod y diffiniad o fân amrywiad yn ddigon cadarn (gweler 3.2 uchod), ac y darperir Canllawiau cynhwysfawr i helpu'r awdurdodau trwyddedu i wneud eu penderfyniadau, ni ddylai fod unrhyw risg sylweddol o hyn yn digwydd.

Dewis 1: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod gan ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

8.5 Fel y manylir ym mharagraffau 8.3 a 8.4 uchod, yn nhyb y Llywodraeth, ni fydd y dewis hwn yn golygu dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol o safbwynt y cyhoedd.

8.6 Fodd bynnag, byddai ganddo'r fantais o ddileu unrhyw ddiogelwch *diangen* o safbwynt y cyhoedd trwy ganiatáu i amrywiadau risg isel sydd ar hyn o bryd o dan ofynion amrywiad llawn gael eu hystyried drwy'r broses mân amrywiadau.

Cw.18: A ydych chi'n cytuno na fyddai Dewis 1 yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol o safbwynt y cyhoedd, ond y byddai'n dileu unrhyw ddioglewch diangen a ganiateir gan y broses amrywiadau bresennol?

Dewis 2: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd fel uchod, ond gan gyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

8.7 Fel y trafodir yn Adran 7, bydd lefel y diogelwch a ganiateir gan Dewis 2 ac a yw'n dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol ai peidio'n dibynnu ar sut y diffinnir mân amrywiad. Gellid tybio y byddai diffiniad ceidwadol yn sicrhau mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond newidiadau bach i gynllun fyddai'n cael eu cynnwys yn y broses mân amrywiadau. Ond byddai hefyd yn eithrio hyd at 30% o amrywiadau risg isel diangen. Yn groes i hyn, byddai diffiniad mwy eang ond yn eithrio tua 5% o amrywiadau risg isel, ond mae'n dal yn debygol o sicrhau lefel 'angenrheidiol' o ddiogelwch cyhoeddus.

8.8 Er na fyddai'r dewis hwn yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol, mae'r Llywodraeth yn ystyried y byddai'n cadw lefel uchel o ddiogelwch na'r hyn sydd ei angen (fel diffinnir ym mharagraffau 8.3-8.4) os diffinnir mân yn rhy gyfyng.

Cw.19: Er na fyddai Dewis 2 yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol, a ydych chi'n cytuno ei fod yn debygol o sicrhau lefel uwch o ddiogelwch na'r hyn sydd ei angen os diffinnir mân yn rhy gyfyng. Os nad ydych, esboniwch pam.

ADRAN 9: CASGLIADAU CRYNO

9.1 Mae'r Llywodraeth o'r farn bod Dewis 3, a fyddai'n golygu peidio newid y trefniadau cyfredol, yn Ddewis hyfyw yn unig os yw'r mesurau dadreoleiddio a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol yma yn annerbyniol am unrhyw reswm sy'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu statudol. Yr amcanion trwyddedu ddylai fod flaenaf mewn unrhyw ystyriaeth.

9.2 Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn fwy cymesur ac yn golygu llai o risg i'r amcanion statudol i ddarparu trefniadau sy'n fwy addas ac yn llai o faich ar ddeiliaid trwydded a thystysgrif clwb sydd am wneud newidiadau bach i'w trwyddedau neu dystysgrifau na fyddant yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. **Felly mae'r Llywodraeth yn ffafrio gwrthod Dewis 3.**

9.3 Mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn **Dewis 2** yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y ffordd y mae'n cael ei ddiffinio. Byddai diffiniad ceidwadol sy'n cyfyngu'r broses mân amrywiadau i osodiad yn rhoi elfen gref o gysondeb ac yn lleihau'r siawns y byddai amrywiadau risg uchel yn llithro drwy'r rhwyd. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan yr anhawster o gynnwys pob caveat posib ymlaen llaw, a'r tebygolrwydd o eithrio tua 30% o amrywiadau risg isel a fyddai fel arall yn cael eu cynnwys yn y broses mân amrywiadau, gan arwain at leihad o £0.7m-£0.8m mewn arbedion cost. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai ymagwedd gor-ofalus yw hyn sy'n colli'r cyfle i leihau'r baich gweinyddol ar ddeiliaid trwydded a rhyddhau adnoddau y gellid eu rhoi yn ôl i wella gwasanaethau i'r gymuned.

9.4 Ar ben arall y raddfa, byddai diffiniad rhyddfrydol o Ddewis 2 yn cynnig rhyw elfen o gysondeb yng nghyswllt amrywiadau risg uchel, ond byddai'n eithrio tua 5% yn unig o amrywiadau risg isel ac yn lleihau'r arbedion cost o £0.1m. Fodd bynnag, ar ôl pwyso a mesur mae'r Llywodraeth o'r farn y gellid sicrhau yr un sicrwydd a chysondeb o dan **Ddewis 1** trwy ddarparu argymhellion cryf yn yr Arweiniad statudol mewn perthynas ag amrywiadau risg uchel megis oriau trwyddedu. Byddai hyn yn lleihau'r risg y gallai'r amrywiadau hyn ddisgyn i'r broses mân amrywiadau gan sicrhau'r arbedion cost mwyaf posib i ddeiliaid trwydded ar yr un pryd. Mae'r disgresiwn a roddir i awdurdodau trwyddedu farnu pob amrywiad yn ôl ei deilyngdod ei hun hefyd yn fwy cyson ag egwyddorion cyffredinol y Ddeddf Trwyddedu a chyda pholisi cyfredol y Llywodraeth o ddatganoli gwneud penderfyniadau i lefel leol.

Felly mae'r Llywodraeth yn ffafrio Dewis 1.

Dewis 1: **Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gadael i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod ac ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag**

awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

Cw.20: A ydych yn cytuno mai Dewis 1 yw'r Dewis gorau?

Cw.21: Os nad ydych, pa Ddewis yr hoffech chi ei weld yn cael ei fabwysiadu?

Cw.22: A ydych o'r farn y dylid archwilio Dewisiadau eraill nad ydynt yn cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori yma?

ADRAN 10: CRYNODEB O GWESTIYNAU

Cw.1: A ydych chi'n cytuno bod y gofyniad i ddeiliaid trwydded wneud cais am amrywiad i wneud newidiadau bach, risg isel i'w trwydded yn cynrychioli baich fel y diffinnir yn adran 1 Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006?

Cw. 2: A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad bras hwn o 'fân amrywiad'? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch ddewis arall.

Cw.3: A ydych chi'n cytuno nad yw'r risg i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu o fân amrywiadau i drwyddedau yn cyfiawnhau'r lefel bresennol o reolaeth a gaiff ei rhoi gan adrannau 34-36 ac 84-86 Deddf Trwyddedu 2003?

Cw.4: A ydych chi'n cytuno y dylid gwrthod Dewis 3 – Dim Newid? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau.

Cw.5: A ydych chi'n cytuno y dylai bod angen i awdurdodau trwyddedu ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel y maent yn barnu'n angenrheidiol yn unig, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y cais i amrywio?

Cw.6: Os nad ydych, pa drefniadau ydych chi'n credu a ddylai fod ar waith, a pham?

Cw.7: A ydych chi'n cytuno na ddylid cael hawl i apelio yn erbyn awdurdod trwyddedu os yw'n gwrthod cais i brosesu amrywiad trwy'r broses mân amrywiadau? Os na, esboniwch pam.

Cw.8: A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau trwyddedu gael 10 diwrnod gwaith i ystyried y ceisiadau am fân amrywiad a naill ai cytuno ar yr amrywiad neu ofyn i'r ymgeisydd ei gyflwyno i'r broses amrywiad yn llawn?

Cw.9: Os nad ydych, pa gyfnod ydych chi'n credu fyddai'n briodol?

Cw.10: A ydych chi'n cytuno y dylai 28 diwrnod llawn fod yn berthnasol os yw'r awdurdod trwyddedu'n penderfynu y dylai amrywiad gael ei brosesu trwy'r weithdrefn lawn? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.11: A ydych chi'n cytuno y dylai fod angen i'r ymgeisydd gopïo'r cais i bob AC, gan gynnwys y rhai yr ymgynghorwyd â nhw'n flaenorol, os caiff yr amrywiad ei gyfeirio at y weithdrefn lawn? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.12: A ydych chi'n cytuno y dylai swyddogion trwyddedu yn hytrach na'r pwyllgor trwyddedu allu gwneud penderfyniadau ar fân amrywiadau (lle mae hynny'n briodol)? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.13: A ydych chi'n cytuno na ellir cyflawni'r newidiadau angenrheidiol a nodir o dan Dewisiadau 1 a 2 trwy ddull anneddfwriaethol? Os ydych chi'n credu y gellir sicrhau newidiadau trwy ddull anneddfwriaethol, rhowch eich rhesymau.

Cw.14: A ydych chi'n cytuno bod y cynnig i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau yn gymesur â'r amcanion polisi a amlinellir uchod?

Cw.15: A ydych chi'n cytuno bod Dewis 1 yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a budd y rhai yr effeithir yn niweidiol arnynt gan y cynnig? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.16: A ydych chi'n cytuno y bydd llwyddiant y Dewis hwn i sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a diddordebau'r rhai a effeithir yn niweidiol gan y cynnig yn dibynnu ar sut y diffinnir mân amrywiad? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.17: Sut ydych chi'n meddwl y dylid diffinio mân amrywiad er mwyn sicrhau cydbwysedd teg? Manylwch a chyfeiriwch at y pedwar math o amrywiad a amlinellir ym mharagraff 7.10.

Cw.18: A ydych chi'n cytuno na fyddai Dewis 1 yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol o safbwynt y cyhoedd, ond y byddai'n dileu unrhyw ddiogelwch diangen a ganiateir gan y broses amrywiadau bresennol?

Cw.19: Er na fyddai Dewis 2 yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol, a ydych chi'n cytuno ei fod yn debygol o sicrhau lefel uwch o ddiogelwch na'r hyn sydd ei angen os diffinnir mân yn rhy gyfyng. Os nad ydych, esboniwch pam.

Cw.20: A ydych yn cytuno mai Dewis 1 yw'r Dewis gorau?

Cw.21: Os nad ydych, pa Ddewis yr hoffech chi ei weld yn cael ei fabwysiadu?

Cw.22: A ydych o'r farn y dylid archwilio Dewisiadau eraill nad ydynt yn cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori yma?

Cw.23: A ydych yn cytuno gyda'r rhagdybiaethau cost a gwaelodol yr Asesiad Effaith yn Atodiad B? Os nad ydych, eglurwch eich rhesymau am hynny a rhowch fanylion amgen.

ATODIAD A: RHESTR YMGYNGHORI

Action in Rural Sussex

Action with Communities in Rural England

Alcohol Concern

Arts Council in England

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Association of Circus Proprietors of Great Britain

Association of Convenience Stores

Awdurdod Llundain Fwyaf

Awdurdodau Trwyddedu yng Nghymru a Lloegr

BII

Busnes mewn Chwaraeon a Hamdden

Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydain

Campaign for Real Ale

Central Council for Physical Recreation

Chinese Takeaway Association UK

Cinema Exhibitors Association

Circus Arts Forum

Comisiwn Cymunedau Gwledig

Comisiwn Elusennau

Community Matters

Consortiwm Adwerthu Prydain

Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol

Cyfarwyddiaeth Menter, Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio

Cymdeithas Adloniant Bar a Dawns

Cymdeithas Adwerthwyr Trwyddedig Lluosog

Cymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol

Cymdeithas Cenedlaethol Marchnadoedd ac Adwerthu Ffermwyr

Cymdeithas Cenedlaethol Opera a Drama

Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Cymdeithas Clercod yr Ynadon

Cymdeithas Croesawiaeth a Thai Bwyta Prydain

Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain

Cymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol

Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Cymdogol

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cymdeithas Parciau Gwyliau a Cartref Prydain

Cymdeithas Prif Swyddogion Tân

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas Sefydliadau Sioe ac Amaethyddol

Cymdeithas Tai Hanesyddol

Cymdeithas Uwch-arolygwyr yr Heddlu

Cymdeithas y Fasnach Gwin a Gwirodydd

Cymdeithas y Plant

Cymdeithas yr Ynadon

Cynghorau Llundain

Cynghrair Siopau Gwledig

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Ffilmiau'r Deyrnas Unedig

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

(DEFRA) Rhwydwaith Adeiladau Cymunedau Gwledig

English Heritage

Federation of Licensed Victuallers

Federation of Licensed Victuallers (Cymru)

Federation of Wholesale Distributors

Ffederasiwn Busnesau Bach

Ffederasiwn Cymdeithas Preswylwyr Preifat

Ffederasiwn Morol Prydain

Ffederasiwn yr Heddlu

Fforwm Cenedlaethol Neuaddau Pentref

Guild of Bangladeshi Restauranteurs

Guild of Master Victuallers

Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr

Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

National Association of Kebab Shops

National Federation of Fish Friers

National Federation of Retail Newsagents

Open all Hours

Passenger Boat Association

Patersons Licensing Acts

Pwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig

Rhwydwaith Celfyddydau'r Stryd Annibynnol

Rhwydwaith Preswylwyr Gweithredol y Ddeddf Trwyddedu

Sefydliad Cenedlaethol Cymdeithasau Preswylwyr

Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig
Sefydliad Safonau Masnach

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Sefydliad Trwyddedu

Society of London Theatre and Theatrical Management Association

Twristiaeth i Bawb

Undeb y Cerddorion

United Kingdom Warehousing Association

Ymgyrch Cenedlaethol y Celfyddydau

Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig

Gwahoddir ymatebwyr i gysylltu â ni gydag enwau unrhyw grwpiau rhanddeiliaid eraill a allai gyfrannu sydd heb eu cynnwys ar y rhestr hon.

ATODIAD B: ASESIAD EFFAITH

Crynodeb: Ymyrraeth a Dewisiadau		
Adran /Asiantaeth: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	**Teitl:** Asesiad Effaith o;r cynnig i gyflwyno proses symlach ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau	
Cam: Ymgynghoriad	**Fersiwn:** 1.1	**Dyddiad:** 11/10/2007
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Deddf Trwyddedu 2003, Papur Ymgynghori ar y cynnig i gyflwyno proses symlach ar gyfer mân amrywiadau i drwyddedau o dan Ddeddf Trwydedu 2003.		

Ar gael i'w ddarllen neu ei lawrlwytho ar:

http://www.culture.gov.uk

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Amanda Stevens **Ffôn:** 020 7211 6322

Beth yw'r broblem o dan sylw? Pam fod angen ymyrraeth gan y llywodraeth?

Mae angen system drwyddedu i reoleiddio rhai gweithgareddau 'trwyddedadwy', yn cynnwys gwerthu alcohol, darparu adloniant rheoledig a darparu lluniaeth hwyr y nos, er mwyn lleihau'r risg i'r amcanion trwyddedu craidd (atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed).

O dan y system bresennol, gellid disgwyl i gyfran sylweddol o newidiadau bach i drwyddedau gael dim effaith neu fawr ddim effaith ar yr amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded fynd trwy'r broses amrywio llawn, gyda'r costau a'r baich gweinyddol cysylltiedig, pan yw'r risgiau i'r amcanion trwyddedu yn fach iawn a lle nad oes gan bartïon sydd â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol fawr ddim neu ddim diddordeb o gwbl ynddynt. Golyga hyn bod yno anghydbwysedd rhwng costau cydymffurfio â'r budd o safbwynt lleihau risg. Mae angen ymyrraeth gan Lywodraeth i gywiro'r anghydbwysedd hyn trwy leihau costau cydymffurfio ar gyfer newidiadau bach, risg isel i drwyddedau.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Yr amcan polisi yw hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu am y cost gweinyddol lleiaf. Yr effeithiau a fwriedir yw :

- gostyngiad sylweddol yn y baich gweinyddol cyfredol ar ddeiliaid trwydded
- cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n cyflwyno newidiadau bach i drwyddedau i'r awdurdod trwyddedu. Fe ddylai hyn sicrhau bod gan awdurdodau trwyddedu (ac awdurdodau eraill) gofnodion diweddar er mwyn llywio eu strategaethau gorfodi.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Cyfiawnhewch unrhyw ddewis a ffafrir os gwelwch yn dda.

Dewis 1: Diffinio 'mân amrywiad' fel unrhyw newid i drwydded a fydd yn cael effaith ar y pedwar amcan trwyddedu. Rhoi disgresiwn llwyr i awdurdodau trwyddedu o fewn y diffiniad eang yma, i benderfynu beth sy'n cyfateb i fân amrywiad neu beidio, yn ddarostyngedig i ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol (yr heddlu, ayb) os oes angen.

Dewis 2: Cyfyngu neu ddileu disgresiwn awdurdod trwyddedu trwy bennu beth yw, a/neu beth nad yw mân amrywiad ar wyneb y Ddeddf. Ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol yn ôl yr angen.

Dewis 3. Dim newid

Pa bryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i ddarganfod y costau a'r buddion gwirioneddol a'r graddau y cyflawnwyd

Cymeradwyaeth y Gweinidog i gam ymgynghori Asesiadau Effaith:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o'r Effeithiau ac rwyf yn fodlon ei fod, yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael, yn cynrychioli barn resymol o gostau, buddion ac effaith debygol y dewisiadau amlycaf.

Arwyddwyd gan y Gweinidog â Chyfrifoldeb:

..... Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Dewis Polisi: Dewis 1	**Disgrifiad: Cyflwyno proses mân amrywiadau newydd a rhoi disgresiwn i awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn 'fân', a ddiffiniwyd yn gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, gan roi ystyriaeth i Arweiniad statudol.**

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL	Disgrifiad a graddfa **costau ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Untro (Trawsnewid) **Bl**	
£	
Cost Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio cost untro)	
£0	**Cyfanswm Cost** (PV) **£0**

Costau eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Bydd y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel y barnant yn ofynnol, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr amrywiad. Fodd bynnag, byddai modd adennill unrhyw gostau o'r fath sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r system trwy dâl sy'n daladwy gan yr ymgeisydd i'r awdurdod trwyddedu, felly byddai'r effaith ar gostau yn niwtral.

BUDDION

BUDDION BLYNYDDOL	Disgrifiad a graddfa **buddion ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Untro **Bl**	Arbedion Blynyddol posib i bob deiliad trwydded a thystysgrif o £2.2m-£2.8m y flwyddyn.
£	
Budd Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio budd untro)	
£ 2.5m (£2.2m-£2.8m)	**Cyfanswm Budd** (PV) **£20.8m (£18.3m-£23.3m)**

Buddion eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Ar hyn o bryd ymgynghorir ag awdurdodau cyfrifol ar bob 'mân' amrywiad risg isel. O dan y cynigion hyn byddid yn ymgynghori â hwynt ar nifer fechan o fân amrywiadau ymylol, gan ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau eraill.

Rhagdybiaethau/Sensitifrwydd/Risgiau allweddol Amcangyfrifon o niferoedd yr amrywiadau fyddai'n dod o fewn y broses mân amrywiadau, costau a graddfa'r amrywiadau sy'n golygu newidiadau gosodiad ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Sail Pris Blwyddyn 2007	Cyfnod amser Blynyddoedd 10	**Ystod Buddion Net** (NPV) **£18.3m-£23.3m**	**BUDD NET** (Amcangyfrif gorau NPV) **£20.8m**

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/dewis?			Cymru a Lloegr	
Ar ba ddyddiad y gweithredir y polisi?			[Gwanwyn/Haf] 2008	
Pa sefydliad(au) a fydd yn gorfodi'r polisi?			Awdurdodau trwyddedu	
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodi i'r sefydliadau hyn?			£ 0 (ffioedd yn cynnwys hyn)	
A yw'r broses o orfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydyw	
A fydd gweithredu'n mynd y tu hwnt i leiafswm gofynion yr UE?			Na fydd	
Beth yw gwerth y mesur arfaethedig i osod yn erbyn bob blwyddyn?			£ ddim ar gael	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£ ddim ar gael	
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gystadleuaeth?			Na fydd	
Cost flynyddol (£-£) fesul corf/mudiad (heb gynnwys cost untro)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A yw unrhyw un o'r cyrff hyn yn eithriedig?	Na	Na	Ddim ar	Ddim ar gael

Effaith ar Waelodlin Beichiau Gweinyddol (Prisiau 2005) (Cynnydd - Gostyngiad)

Cynnydd o £ Gostyngiad o £2.5m **Effaith Net** **-£2.5m**

Allwedd: **Costau a Buddion Blynyddol: Prisiau Cyson** **Gwerth Presennol (Net)**

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Dewis Polisi: Dewis 2	Disgrifiad: Cyflwyno proses mân amrywiadau newydd ond cyfyngu neu ddileu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy bennu ar wyneb y Ddeddf pa amrywiadau ddylid eu cynnwys , a/neu eu hepgor o'r broses.

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa **costau ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'	
Untro (Trawsnewid)	**Bl**		
£			
Cost Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio cost untro)			
£0		**Cyfanswm Cost** (PV)	**£0**

Costau eraill allweddol nad ydynt yn rhai ariannol gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Bydd y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel y barnant yn ofynnol, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr amrywiad. Fodd bynnag, byddai modd adennill unrhyw gostau o'r fath sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r system trwy dâl sy'n daladwy gan yr ymgeisydd i'r awdurdod trwyddedu, felly byddai'r effaith ar gostau yn niwtral.

BUDDION

BUDD BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa **buddion ariannol allweddol** gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'	
Untro	**Bl**	Arbedion Blynyddol posib i bob deiliad trwydded a thystysgrif o £1.5m-£2.6m y flwyddyn.	
£			
Budd Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio budd untro)			
£2.1m (£1.5m-£2.6m)		**Cyfanswm Budd** (PV)	**£17.5m (£12.5m-£22.6m)**

Budd arall heb ei ariannu gan y 'prif grwpiau a effeithir' Ar hyn o bryd ymgynghorir ag awdurdodau cyfrifol ar bob 'mân' amrywiad risg isel. O dan y cynigion hyn byddid yn ymgynghori â hwynt ar nifer fechan o fân amrywiadau ymylol, gan ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau eraill.

Rhagdybiaethau/Meysydd Sensitif/Risgiau Allweddol Amcangyfrifon o niferoedd yr amrywiadau fyddai'n dod o fewn y broses mân amrywiadau, costau a graddfa'r amrywiadau sy'n golygu newidiadau gosodiad ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Sail Pris Blwyddyn 2007	Cyfnod amser Blynyddoedd 10	**Ystod Buddion Net** (NPV) **£12.5m-£22.6m**	**BUDD NET** (Amcangyfrif gorau NPV) **£17.5m**

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/dewis?			Cymru a Lloegr	
Ar ba ddyddiad y gweithredir y polisi?			[Gwanwyn/Haf] 2008	
Pa sefydliad(au) a fydd yn gorfodi'r polisi?			Awdurdodau trwyddedu	
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodi i'r sefydliadau hyn?			£ 0 (ffioedd yn cynnwys hyn)	
A yw'r broses o orfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydyw	
A fydd gweithredu'n mynd y tu hwnt i leiafswm gofynion yr UE?			Na fydd	
Beth yw gwerth y mesur arfaethedig i osod yn erbyn bob blwyddyn?			£ ddim ar gael	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£ ddim ar gael	
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gystadleuaeth?			Na fydd	
Cost flynyddol (£-£) fesul corf/mudiad (heb gynnwys cost untro)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A yw unrhyw un o'r cyrff hyn yn eithriedig?	Na	Na	Ddim ar	Ddim ar gael

Effaith ar Waelodlin Beichiau Gweinyddol (Prisiau 2005) (Cynnydd - Gostyngiad)

Cynnydd o £ Gostyngiad o £2.1m **Effaith Net** **-£2.1m**

Allwedd: **Costau a Buddion Blynyddol: Prisiau Cyson** **Gwerth Presennol (Net)**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

[Defnyddiwch y gofod hwn (gydag uchafswm a argymhellwyd o 30 tudalen) i ddatgan y dystiolaeth, dadansoddiad a'r naratif manwl yr ydych wedi eu defnyddio fel sail i'r dewisiadau neu gynnig polisi. Sicrhewch fod yr wybodaeth wedi cael ei threfnu yn y fath fodd fel ag i esbonio'n glir yr wybodaeth gryno ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon.]

Y baich deddfwriaethol

Mae Adran 34 Deddf Trwyddedu 2003 yn darparu y gall deiliad trwydded mangre wneud cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol ar gyfer amrywiad o'r drwydded. Mae amrywiad yn ofynnol ar gyfer unrhyw newid i'r drwydded yn cynnwys newidiadau i unrhyw nodwedd a ddangosir ar gynllun o'r fangre.

Yr unig eithriad yw amrywiad i'r drwydded i bennu unigolyn fel goruchwyliwr mangre sy'n ddarostyngedig i broses hysbysu symlach o dan adran 37 y Ddeddf.

Cynnig y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid addasu Deddf 2003 er mwyn darparu ar gyfer proses 'mân' amrywiadau newydd. Byddai hyn yn caniatáu ymgeiswyr i wneud newidiadau bach i'w trwyddedau am dâl bychan a heb orfod hysbysu ynglŷn â'r amrywiad neu anfon copi ohono at bob awdurdod cyfrifol.

Rhoddwyd y cynnig hwn gerbron fel rhan o Gynllun Symleiddio DCMS a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2006.

Pwy y mae'r baich yn effeithio arnynt

Ar 8 Tachwedd 2007 cyhoeddwyd bwletin Ystadegol DCMS "Alcohol, Entertainment and Late Night Refreshment Licensing". Mae hyn yn cynnwys ffigurau am niferoedd y ceisiadau i amrywio trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod 1 Ebrill 2006 tan 31 Mawrth 2007. Ar sail ymateb gan 82% o awdurdodau trwyddedu roedd yno 10,120 o geisiadau i amrywio, er y bydd y ffigurau hyn yn uwch pe baent yn cael eu hallosod i gynnwys gweddill y 18% o'r awdurdodau na roddodd ymateb.

Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â chyfnod yn fuan ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, felly mae'n dilyn y byddai mangreoedd a chlybiau yn llai tebygol o ddymuno amrywio telerau eu hawdurdodiadau. Mae hyn hefyd yn egluro pam fod yr ystadegau yn dangos nifer cymharol uchel o geisiadau am drwyddedau a thystysgrifau newydd, 14,960 o geisiadau newydd ar sail ymateb gan 82% o awdurdodau trwyddedu.

Yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau rhanddeiliaid a grŵp ffocws o ddeg awdurdod trwyddedu, credwn fod llawer o fangreoedd a chlybiau wedi dewis gwneud cais am drwyddedau a thystysgrifau newydd yn hytrach na gwneud cais i amrywio. Felly, rydym yn amcangyfrif mewn blynyddoedd i ddod y bydd yno tua **20,000 o geisiadau** am amrywiad y flwyddyn ar draws pob awdurdod trwyddedu.

Er mwyn cyfrifo'r baich cyfredol byddai angen i ni wedyn sefydlu faint o geisiadau i amrywio fyddai'n dod o fewn yr amlinelliad eang o fân amrywiad, h.y. amrywiad nad yw'n effeithio ar y pedwar amcan trwyddedu.

Unwaith eto, nid oes amcangyfrifon dibynadwy ar gael a chymhlethir pethau ymhellach gan y ffaith bod llawer o fangreoedd yn dewis peidio gwneud cais amrywiad ar gyfer mân newidiadau, oherwydd y costau anghymesur sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau

rhanddeiliaid ac awdurdodau trwyddedu credwn fod tua **30% o amrywiadau (6000)** yn debygol o gael eu cynnwys o fewn proses mân amrywiadau.

Nid yw'r ffigur yma'r trosi'n uniongyrchol i niferoedd busnesau neu glybiau y mae'r baich yn effeithio arnynt, ond oherwydd y bydd rhai mangreoedd yn cyflwyno sawl cais i amrywio (e.e. os ydyn tyn cynnal gwaith ailosod sylweddol i siop). Mae'r arwyddion o du rhanddeiliaid yn awgrymu bod ceisiadau niferus fel hyn yn cyfrif am tua 5% o'r 'mân' amrywiadau cyfredol. Pe bai'r cyfanswm yn cael ei leihau 5% i ystyried ceisiadau niferus, byddai'n dal i olygu bod y baich yn effeithio ar **5700 mangre bob blwyddyn**.

Mae'r ystod o grwpiau yr effeithir arnynt yn cynnwys:

- tafarndai, bariau, clybiau nos, gwestai, llety gwely a brecwast a mangreoedd eraill sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn y fangre;
- archfarchnadoedd, siopau hwylus ac eiddo arall a drwyddedwyd i werthu alcohol oddi ar y fangre;
- theatrau, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth byw, darparwyr adloniant rheoledig eraill;
- siopau pryd ar y stryd, tai bwyta, caffis a mangreoedd eraill sy'n darparu lluniaeth hwyr y nos;
- cyrff gwirfoddol, megis elusennau, ysgolion, neuaddau pentref a chymunedol; a
- clybiau aelodau preifat, megis clybiau chwaraeon, clybiau gweithwyr a chlybiau gwleidyddol.

Cost y baich

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd am amrywio trwydded neu dystysgrif (ac eithrio amrywiad i bennu goruchwyliwr mangre):

- cwblhau ac anfon ffurflen gais gyda chopi o'r drwydded neu'r dystysgrif, y cynllun gwreiddiol (a chynllun wedi'i addasu, os yw hynny'n briodol) i'r awdurdod trwyddedu perthnasol (£15-£80[1])
- talu ffi (£100-£1905, yn dibynnu ar werth trethadwy'r fangre);
- copïo pob dogfen at hyd at naw awdurdod cyfrifol (£20-£40);
- hysbysu'r newid arfaethedig mewn papur newydd/cylchlythyr lleol (£200-£400);
- arddangos crynodeb byr o'r cais ar hysbysiad o faint A4 ar y fangre neu'r tu allan i'r fangre (£5-£10, er y byddai hyn yn cynyddu yn achos mangreoedd mwy y mae'n rhaid iddynt arddangos mwy nag un hysbysiad).

Amcangyfrifir bod cost amrywiad ar gyfartaledd (yn cynnwys ffioedd, sy'n cael eu codi ar yr un sail â chais am drwydded llawn sydd ar gyfartaledd yn £225 i bob mangre) tua **£610.**

Amcangyfrifir bod cost amrywiad ar gyfartaledd ac eithrio ffioedd tua **£385.**

Fodd bynnag, fe all y costau ychwanegol canlynol fod yn gymwys ar gyfer rhai amrywiadau:

- cyflwyno cynllun diwygiedig o'r fangre (lle gwneid cais a newidiadau i osodiad y fangre) - £25-£500 (e.e. os oes angen darlun proffesiynol o'r cynllun)

Ar sail 1-5 awr o amser rheoli ar gost yr awr o £16.23 (amcangyfrifwyd o drafodaethau gyda rhanddeiliaid).

- cael cymorth cyfreithiol proffesiynol - £100-£500 (er mewn nifer bach o achosion, fe allai'r ffioedd cyfreithiol fod mor uchel â £1500).

Os ychwanegir y costau hyn, byddai cyfartaledd cost amrywiad yn codi i £950 (ac eithrio ffioedd) neu £1170 (yn cynnwys ffioedd).

Felly mae'r ystod o gostau posib ar gyfer amrywiad (ac eithrio ffioedd) rhwng **£385 - £950**.

Ar sail tua 6000 o geisiadau amrywiad y flwyddyn sy'n debygol o gael eu dal gan broses mân amrywiadau, ar gost gweinyddol sylfaenol o £385 i bob cais, byddai hyn yn arwain at faich ariannol o tua **£2.3m**. Dylid nodi bod pob baich blynyddol yn yr Asesiad Effaith yma wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1m agosaf.

Mae cynlluniau diwygiedig yn ofynnol yn unig ar gyfer amrywiadau sy'n cynnwys newidiadau i osodiad. Mae rhanddeiliaid yn amcangyfrif bod tua 70% o'r 6000 o amrywiadau sy'n debygol o gael eu dynodi fel 'mân' o dan y broses newydd (4200) yn dod o fewn y categori yma ac felly yn wynebu'r costau ychwanegol hyn. Ar gyfartaledd cost o £263 ar gyfer cynllun diwygiedig, mae hyn yn arwain at faich blynyddol o tua **£1.1m**.

Yn yr un modd, ni fydd pob ymgeisydd yn chwilio am gymorth cyfreithiol i gwblhau cais am amrywiad. Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn ein harwain i amcangyfrif bod tua hanner 3000) o bob 'mân' amrywiad yn wynebu ffioedd cyfreithiol ar gyfartaledd cost o £300 fesul cais, gan arwain at faich ariannol blynyddol ychwanegol o **£0.9m** i'r ymgeiswyr hyn.

Felly mae ystod y baich cost blynyddol ar gyfer amrywiadau (ac eithrio ffioedd), ond yn cynnwys cost y cynlluniau diwygiedig a ffioedd cyfreithiol fel uchod ar gyfer rhai ymgeiswyr, yn **£2.3m-£4.3m**[2].

Arbedion cost proses mân amrywiadau

Costau gweinyddol

O dan broses mân amrywiadau fe fyddai yno arbedion cost llawn mewn perthynas â'r canlynol:

- copïo pob dogfen at hyd at naw awdurdod cyfrifol (£20-£40);
- hysbysu'r newid arfaethedig mewn papur newydd/cylchlythyr lleol (£200-£400);
- arddangos crynodeb byr o'r cais ar hysbysiad o faint A4 ar y fangre neu'r tu allan i'r fangre (£5-£10)

Ar gyfartaledd o £338 fesul cais, ac eithrio ffioedd, ardraws pob un o'r 6000 o fân amrywiadau byddai hyn yn cyflenwi arbediad cost blynyddol o **£2.0m**.

[2] Efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

O dan y broses mân amrywiadau, byddai'n ofynnol o hyd i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais a'i hanfon at yr awdurdod trwyddedu perthnasol, gyda chopi o'r drwydded neu'r dystysgrif, y cynllun gwreiddiol a'r cynllun diwygiedig, os yw hynny'n briodol). Fodd bynnag, gan ragdybio y bydd y ffurflen gais yn fyrrach a symlach, mae hyn yn debygol o gymryd llai o amser na chais am amrywiad llawn. Os rhagdybir lleihad cyffredinol mewn amser rheoli er mwyn cwblhau'r broses o 0-3 awr ar gyfartaledd fesul; cais ar amcangyfrif cost o £16.23 yr awr byddai'r arbediad cost ar gyfartaledd yn £24. Gan y bydd yr arbediad cost ar gyfartaledd yma yn berthnasol ar draws pob un o'r 6000 o amrywiadau bydd yr amcangyfrif arbediad cost blynyddol yn **£0.1m.**

Mae hyn yn golygu y byddai'r amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion cost blynyddol sy'n berthnasol i'r holl geisiadau, yn **£2.2m**[3].

Costau cyfreithiol

Mae'n bosib y byddai ymgeisydd sy'n ceisio cymorth cyfreithiol i wneud cais am amrywiad cymharol syml yn dal i ddewis gwneud hynny ar gyfer cais am fân amrywiad, hyd yn oed gyda ffurflen symlach, gan leihau'r arbedion posib. Os amcangyfrifir na fyddai tua hanner y 3000 o fân amrywiadau (1500) sydd ar hyn o bryd yn cynnwys ffioedd cyfreithiol yn gwneud hynny mwyach, fe fyddai hynny'n arwain at arbediad cost o £300/cais a chyfanswm arbediad cost o **£0.5m**.

Byddai'r 1500 o fân amrywiadau sy'n weddill yn dal i wynebu costau cyfreithiol. Fodd bynnag, byddai graddfa unrhyw ffioedd cyfreithiol yn adlewyrchu cymhlethdod y broses o wneud cais ac o'r herwydd dylai'r system fân amrywiadau mwy syml leihau costau. Rydym yn amcangyfrif y bydau costau cyfreithiol ar gyfer mân amrywiadau oddeutu £100-£300, gyda chyfartaledd o £200, sy'n golygu arbediad cost ar gyfartaledd ar gyfer pob cais sy'n cynnwys cymorth cyfreithiol o £100, ac arbediad cost blynyddol o tua **£0.2m**. Felly cyfanswm yr arbedion cost blynyddol fyddai **£0.6m**.

Mae hyn yn rhoi ystod arbedion cost blynyddol posib o **£2.2m-£2.8m**.

Costau ar gyfer dewisiadau gwahanol

Dewis 1: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses newydd ar gyfer mân amrywiadau, wedi'u diffinio'n gyffredinol fel unrhyw amrywiad nad yw'n effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Rhoi disgresiwn llwyr i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' ai peidio o fewn y paramedrau eang a ddisgrifiwyd uchod gan ystyried y meini prawf cyffredinol a'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn yr Arweiniad statudol a wnaed o dan Ddeddf 2003. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

Gellir rhagdybio y byddai'r disgresiwn a ganiateir i awdurdodau trwyddedu wrth benderfynu a yw cais yn fân amrywiad yn arwain at yr uchafswm arbedion a nodir uchod fel **£2.2m-£2.8m y flwyddyn.**

Dewis 2: Addasu'r Ddeddf i gyflwyno proses mân amrywiadau newydd fel uchod, ond gan gyfyngu neu ddileu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu trwy nodi ar wyneb y Ddeddf pa

[3] Efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

amrywiadau y dylid eu cynnwys o fewn, a/neu eu hepgor, o'r broses mân amrywiadau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori gydag awdurdodau cyfrifol perthnasol fel sy'n ofynnol yn eu barn, yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol yr amrywiad.

Gellid dadlau y byddai Dewis 2 yn darparu mwy o eglurder ynghylch yr hyn sydd neu nad yw yn fân o fewn y Ddeddf ac y byddai awdurdodau trwyddedu yn ôl pob tebyg yn dod i benderfyniadau tebyg o dan Ddewis 1. Felly byddai unrhyw arbedion trwy Ddewis 2 fwy neu lai yr un fath ag yn achos Dewis 1. Fodd bynnag, mae'r ystod eang o amrywiadau yn golygu ei bod hefyd yn rhesymol rhagdybio sut bynnag y diffinnir 'mân', y bydd yn hepgor rhai amrywiadau na fyddai'n cael unrhyw effaith ar yr amcanion trwyddedu. Felly gallwn ragweld y byddai Dewis 2 yn arwain at arbedion cost is na Dewis 1.

Fodd bynnag, bydd y gostyngiad mewn arbedion cost yn amrywio yn ddibynnol ar sut y bydd 'mân' yn cael ei ddiffinio. Byddai hyd yn oed diffiniad hael a fyddai'n eithrio rhai amrywiadau risg uchel yn unig (e.e. ymestyn oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre) yn dal i hepgor tua eithrio 5% o'r mân amrywiadau posib. Byddai hyn yn gadael 95% o amrywiadau (5700) posib trwy broses mân amrywiadau, gan arwain at arbedion cost o **£2.1m-£2.6m y flwyddyn.**

Ar ben arall y raddfa, fe allai'r diffiniad mwyaf gofalus, er enghraifft, bennu y byddai proses mân amrywiad yn berthnasol yn unig i newidiadau bach, risg isel i'r gosodiad. Fel nodwyd uchod mae rhanddeiliaid, yn amcangyfrif y byddai 70% o amrywiadau (4200) yn gofyn am addasiad i osodiadau yn unig.. Byddai hyn yn arwain at arbedion o **£1.5m-£1.9m y flwyddyn**.

Felly, amcangyfrifir y bydd yr ystod o arbedion ar gyfer Dewis 2, yn dibynnu sut y diffinnir proses mân amrywiadau, oddeutu **£1.5m-£2.6m y flwyddyn.**

Dewis 3: Dim newid

Ni fyddai yno unrhyw arbedion gyda'r Dewis yma. Cyfrifwyd amcangyfrifon ar gyfer Dewisiadau 1 a 2 uwchben y Dewis yma.

Y Dewis a Ffafrir gan y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y 3 Dewis. Byddai Dewis 3 yn golygu dim newid yn y trefniadau presennol, ac mae'n Ddewis hyfyw yn unig os yw'r Dewisiadau eraill a gynigir yn annerbyniol am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â'r pedwar amcan trwyddedu statudol. Byddai Dewis 1 a Dewis 2 yn cyflenwi proses mân amrywiadau yn unol â'r hyn a gynigir, ond byddai Dewis 1 yn rhoi'r disgresiwn i awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un 'mân' o fewn diffiniad eang gan roi ystyriaeth i Arweiniad statudol, tra byddai Dewis 2 yn cyfyngu neu'n dileu disgresiwn awdurdod trwyddedu trwy bennu pa amrywiadau y dylid eu cynnwys, a/neu eu hepgor o broses mân amrywiadau. Rhoddir cymhariaeth o ran arbedion cost pob Dewis isod:

	Arbedion blynyddol posib i bob deiliad trwydded a thystysgrif
Dewis 1	**£2.2m-£2.8m y flwyddyn**
Dewis 2	**£1.5m-£2.6m y flwyddyn**
Dewis 3	**£0**

Mae dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn Dewisiadau 1 a 2 yn ymarferol, maent yn debygol o gyflenwi deilliannau tebyg o safbwynt adnabod amrywiadau sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r broses amrywiadau llawn. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn bod Dewis 2 yn ddull gweithredu gor-ofalus. Byddai unrhyw ddiffiniad o ‘mân’ yn cau allan rhai amrywiadau risg isel, gan arwain at ostyngiad llai yn y baich gweinyddol heb unrhyw fudd i wneud iawn am hynny o ran amddiffyn y cyhoedd, neu hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Mae'r Llywodraeth yn ffafrio Dewis 1 gan y byddai’n cyflenwi'r gostyngiad mwyaf posib yn y baich gyda'r risg lleiaf posib, a chaniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw amrywiad yn un ‘mân’ ar sail eu gwybodaeth leol a thynnu ar arbenigedd gan unrhyw awdurdod cyfrifol arall y maent yn dymuno ymgynghori ag ef.

Profion Effeithiau Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ystyriwch y bydd effeithiau potensial eich dewisiadau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar ddadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnwys o fewn y brif sail tystiolaeth; gellir ychwanegu canlyniadau eraill.

Math o brofi a wnaed	***Canlyniadau yn y Sail Tystiolaeth?***	***Canlyniadau wedi'u hychwanegu?***
Asesiad Cystadleuaeth	Nac ydynt	Ydynt
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Nac ydynt	Ydynt
Cymorth Cyfreithiol	Nac ydynt	Nac ydynt
Datblygu Cynaliadwy	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Carbon	Nac ydynt	Nac ydynt
Amgylcheddol Arall	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Effaith ar Iechyd	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb Hiliol	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Nac ydynt	Ydynt
Cydraddoldeb Rhywiol	Nac ydynt	Ydynt
Hawliau Dynol	Nac ydynt	Nac ydynt
Profi Gwledig	Nac ydynt	Ydynt

Atodiadau

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – Sgrinio Cychwynnol

Adran	Nodiadau
1. Enw'r swyddogaeth/polisi i gael ei asesu: **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio arfaethedig i ddarparu ar gyfer proses 'mân' amrywiadau newydd i ganiatáu ymgeiswyr i wneud newidiadau bach i drwyddedau a thystysgrifau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 trwy broses cost isel a syml.**	
2. Beth yw nod, amcan neu ddiben y polisi? **Yr amcan polisi yw addasu Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cyflwyno proses llwybr cyflym symlach ar gyfer gwneud newidiadau bach, risg isel i drwyddedau.** **Yr effaith a fwriedir yw gostyngiad sylweddol yn y baich gweinyddol cyfredol ar ddeiliaid trwydded, a chynnydd yn y nifer o ymgeiswyr sy'n cyflwyno newidiadau bach i drwyddedau i'r awdurdod trwyddedu. Fe ddylai hyn sicrhau bod gan awdurdodau trwyddedu (ac awdurdodau eraill) gofnodion diweddar o fangreoedd er mwyn llywio eu strategaethau gorfodi.**	
3. Beth yw'r canlyniadau a fwriedir? **Addasiad i Ddeddf Trwyddedu sy'n darparu mecanwaith symlach ar gost is ar gyfer gwneud newidiadau bach i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.** **Diwygiad i'r Arweiniad statudol i awdurdodau trwyddedu er mwyn adlewyrchu'r broses reoleiddio newydd yma.**	*Ystyriwch:* *Sut fyddwch chi'n monitro tuag at y canlyniadau hyn?* *A yw'r canlyniadau'n cefnogi neu'n llesteirio polisïau, gwerthoedd neu amcanion eraill o fewn yr Adran?* *Os ydynt yn llesteirio gwaith arall a ellir cyfiawnhau hyn?*

4. Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? **Rhai sy'n cynrychioli deiliaid trwydded mangre (yn cynnwys tafarndai, clybiau nos, gwestai, archfarchnadoedd, siopau hwylus, theatrau, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth byw, siopau pryd ar y stryd, tai bwyta a neuaddau pentref) a deiliaid tystysgrif mangre clwb (yn cynnwys clybiau chwaraeon, clybiau gweithwyr a chlybiau gwleidyddol),** yr **awdurdodau trwyddedu fel gweinyddwyr y gyfundrefn, rhai sy'n ymwneud â gweithgaredd gorfodi megis yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill, ac eraill sydd â budd yn effaith y cynigion ar yr amcanion trwyddedu megis trigolion.**	• *Pwy yw'r grwpiau/unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y swyddogaeth neu bolisi?* • *Pwy arall allai fod â budd sylweddol yng ngweithredu'r polisi hwn?* • *Pwy arall allai fod â gwybodaeth am effaith neu effaith bosibl y polisi neu swyddogaeth?*
5. A yw nod y polisi neu unrhyw un o'i ganlyniadau a fwriedir wedi eu cynllunio'n benodol i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus, er enghraifft: • Dileu gwahaniaethu? • Hyrwyddo Cyfle Cyfartal? • Hyrwyddo perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau? **NA** [*Ni fydd y mwyafrif o swyddogaethau, polisïau ac arferion wedi cael eu cynllunio'n* ***benodol*** *i gyflawni'r Dyletswyddau Cyhoeddus. Nid oes ond angen ichi ateb* ***'ydynt'*** *os mai* ***bwriad penodol*** *y swyddogaeth, polisi neu arfer yw cyflawni'r dyletswyddau cyhoeddus. Fel arall, symudwch ymlaen i adran 6]*	• *Er enghraifft, polisi sydd â'r nod o atal aflonyddu a bwlio* • *Os mai'r ateb yw* ***YDYNT*** *i unrhyw un o'r cwestiynau, yna fe fydd gofyn ichi fynd ymlaen i asesiad effaith llawn. Dylech droi at adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 7-12 yn eich helpu chi i gynnal asesiad llawn*

6. A yw'r swyddogaeth neu bolisi'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd neu â staff a gyflogir gan yr adran, neu'n effeithio arnynt? **YDYW**	• *Os mai'r ateb yw* ***YDYW*** *ewch ymlaen i adran 7* • *Os mai'r ateb yw* ***NA*** *rhestrwch y dystiolaeth neu'r cyfiawnhad arall gyferbyn neu arall daflen amgaeedig sy'n dangos pam* <u>*na*</u> *fydd y polisi'n effeithio ar aelodau o'r cyhoedd neu ar staff a gyflogir gan yr Adran* • *Os yw'r dystiolaeth sydd gennych yn dangos nad oes* <u>*unrhyw*</u> *effaith nac effaith debygol ni fydd angen ichi gynnal asesiad effaith* <u>*ond*</u> *fe fydd angen ichi fonitro gweithredu'r polisi dros amser er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i beidio â chael unrhyw effaith ar bobl. Fel isafswm, dylai hyn fod bob tair blynedd* • *Os ydych yn sicr mai'r ateb yw* ***NA****, ewch ymlaen i adrannau 13 a 14*

7. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n dweud wrthych sut mae'r swyddogaeth neu bolisi'n gweithio neu sut y bwriedir iddo weithio dros y rhanddeiliaid arfaethedig? **Oes** **Mae ymateb gan amrediad o randdeiliaid yn awgrymu bod yno faich diangen ar hyn o bryd ar y rhai hynny sy'n dymuno gwneud newidiadau bach i'w trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, nad yw'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar yr amcanion trwyddedu. Bwriadwyd y cynigion i leihau'r baich sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais o'r fath gan gadw'r amcanion trwyddedu ar yr un pryd fel yr amddiffyniad allweddol a adeiladwyd yn rhan o'r system.**	• *Os nad oes gennych <u>ddim</u> tystiolaeth ar gael, yna ni fyddwch yn gallu asesu a yw'r polisi'n berthnasol i gydraddoldeb* • *Fe fydd angen ichi gasglu tystiolaeth ynghylch effeithiau'r polisi ar randdeiliaid. (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 2 o'r nodiadau canllaw ar gasglu tystiolaeth)* • *Dylech hefyd ystyried ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid a chynnwys pobl anabl ar y cam hwn (Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at adran 5 ar ymgynghori a chynnwys)* • *Pan fyddwch chi wedi casglu tystiolaeth o effeithiau'r polisi ar y rhanddeiliaid arfaethedig, gellwch wedyn symud ymlaen gyda'r sgrinio cychwynnol* • *Dylech sicrhau bod y camau angenrheidiol ar gyfer casglu'r dystiolaeth yn cael eu nodi mewn cynllun gweithredu*

8. O'r dystiolaeth sydd ar gael, a oes unrhyw reswm dros gredu fod pobl yn cael eu heffeithio'n wahanol neu'n debygol o gael eu heffeithio'n wahanol yn ôl unrhyw un o'r meysydd cydraddoldeb a restrir, er enghraifft, oherwydd bod ganddynt wahanol anghenion neu flaenoriaethau?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn debygol o effeithio'n wahanol ar unrhyw un o'r llinynnau cydraddoldeb uchod.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 9-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 9*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

9. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu bolisi mewn unrhyw fodd yn gwahaniaethu, neu'n gallu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl o unrhyw un o'r meysydd a restrir, er enghraifft o ran y gallu i gael at wasanaeth neu fanteisio ar gyfle?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn gwahaniaethu yn erbyn y bobl yn y llinynnau a restrwyd.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 10-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 10*

- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

10. A oes unrhyw dystiolaeth fod gan bobl o'r grwpiau a gynhwysir o fewn y meysydd a restrir, neu y gall fod ganddynt, wahanol ddisgwyliadau o'r swyddogaeth neu bolisi o dan sylw?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd gan unrhyw un o'r grwpiau uchod ddisgwyliadau gwahanol yn dilyn y newid rheoleiddio arfaethedig.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adrannau 11-12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 11*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

11. A oes unrhyw dystiolaeth fod y swyddogaeth neu'r polisi'n effeithio neu y gallai effeithio ar y berthynas rhwng grwpiau a gynhwysir yn y meysydd cydraddoldeb, er enghraifft, a yw neu a allai gael ei weld fel petai'n ffafrio unrhyw grŵp neilltuol neu'n gwadu cyfleoedd i un arall?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y newid rheoleiddio arfaethedig yn ffafrio grŵp arbennig neu yn amddifadu grŵp arall o unrhyw gyfleoedd.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13, er nodwch os gwelwch yn dda y bydd adran 12 yn eich helpu i gynnal asesiad llawn*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 12*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

12. A yw ymgynghoriadau blaenorol gyda grwpiau rhanddeiliaid neu unigolion perthnasol yn awgrymu bod polisïau o'r math hwn yn creu allgau neu'n peri sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrir?

	Oes	Nac oes	Anhysbys
Oedran		X	
Anabledd		X	
Rhyw		X	
Hil		X	
Crefydd neu Gred		X	
Tueddfryd Rhywiol		X	

Crynhowch os gwelwch yn dda yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a chysylltwch y dystiolaeth yn llawnach â'r ddogfen sgrinio hon neu gyfeiriad at le mae'r dystiolaeth ar gael

Nid oes unrhyw ymateb a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd y polisi hwn yn creu eithriadau neu'r creu sialensiau penodol i unrhyw un o'r grwpiau a restrwyd.

- *Os mai **Oes** yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ar gyfer unrhyw un o'r meysydd, fe fydd angen ichi symud ymlaen i asesiad effaith llawn. Os felly, ewch ymlaen i adran 13*
- *Os mai'r ateb yw **Na** a bod y dystiolaeth yn cefnogi hyn, ewch ymlaen i adran 13*
- *Os nad yw'r dystiolaeth yn eich galluogi ichi i adnabod yr effaith ar wahanol grwpiau, fe fydd angen ichi gasglu mwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i wneud hyn. Cyfeiriwch yn ôl at adran 7 uchod*

13. A oes angen asesiad effaith llawn? **NA** **Ni chredwn y bydd y newid rheoliadol arfaethedig yn effeithio mewn ffordd wahanol ar unrhyw un o'r grwpiau o dan y meysydd a restrir.**	• *Os mai'r ateb yw **NA** defnyddiwch y gofod gyferbyn i grynhoi pam ac amgaewch unrhyw dystiolaeth gefnogol bellach* • *Os mai'r ateb yw **OES** fe fydd angen ichi drefnu i gynnal asesiad effaith llawn* • *Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr wybodaeth yr ydych eisoes wedi ei nodi yn y sgrinio cychwynnol hwn yn werthfawr ichi wrth gynnal yr asesiad effaith llawn*
14. Os nad oes angen asesiad effaith llawn, nodwch os gwelwch yn dda y cynlluniau i fonitro gweithredu'r polisi hwn dros y tair blynedd nesaf. **Fe fyddwn ni'n gwirio gyda rhanddeiliaid allweddol a yw'r datganiad yn adran 13 yn dal yn wir 12 mis ar ôl deddfiad (yn amodol ar y Senedd) y newid rheoliadol.**	
15. Dychwelwch gopi o'r ffurflen hon os gwelwch yn dda at:	
Enw: **Amanda Stevens**	
Uned/Cyfarwyddiaeth: **Tîm Trwyddedu / Cyfarwyddiaeth Diwydiant**	
Dyddiad: **21/09/07**	

Asesiad Cystadleuaeth

Nid ydym o'r farn bod y polisi arfaethedig yn debygol o godi unrhyw bryderon cystadleuaeth. Mater i fangre neu glwb fydd penderfynu gwneud cais am fân amrywiad neu beidio ac ni fyddai yno gyfyngiad i fath arbennig o fangre neu glwb, felly i'r graddau hynny mae'r cynigion yr un mor berthnasol i bob mangre. Felly, ni fydd yn cyfyngu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y nifer neu'r ystod o gyflenwyr, cyfyngu ar allu'r cyflenwyr i gystadlu neu leihau cymhelliant cyflenwyr i gystadlu'n egniol.

Prawf effaith cwmnïau bach

Gan y bydd y cynigion hyn yn cael effaith cydradd ar bob mangre, trwy newid y mecanwaith o wneud mân amrywiad yn unig, nid ydym o'r farn y bydd yno effaith tebygol ar fusnesau bach. Lle mae'r cynigion hyn yn effeithio ar fusnesau bach, yr effaith fydd lleihau'r baich a chaniatáu mwy o hyblygrwydd mewn gweithrediad busnes. Mae'r gr□p rhanddeiliaid a sefydlwyd i'n cynghori ar y cynigion hyn yn cynnwys amrediad eang o gyrff sy'n cynrychioli busnesau bach, yn cynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas Siopau Hwylus, Cymdeithas Arddangoswyr Sinema,

Consortiwm Adwerthu Prydain, Busnes mewn Hamdden a Chwaraeon, Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, Undeb y Cerddorion, y Gymdeithas Adloniant Bar a Dawns, a Phwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig. Nid wnaeth yr un o'r grwpiau hyn ein cynghori ynghylch unrhyw effaith niweidiol yn sgil y cynigion hyn ar fusnesau bach.

Profi Gwledig

Mae Action with Communities in Rural England (ACRE) yn aelod o'n gr□p rhanddeiliaid ac nid yw wedi codi unrhyw bryderon ynghylch effaith y cynigion hyn ar gymunedau gwledig.

Sgrinio Asesiad Effaith Iechyd

Rydym wedi cynnal proses sgrinio i benderfynu a oes angen asesiad effaith iechyd llawn ar y polisi hwn. Mae'r cynnig ond yn newid y broses o ganiatáu amrywiad yn achos rhai amrywiadau risg na fyddan tyn effeithio ar yr amcanion trwyddedu (sy'n cynnwys atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus) a fyddai fel arall yn cael eu caniatáu heb unrhyw anhawster. Gan nad yw fel arall yn newid unrhyw elfen arall o'r polisi trwyddedu, nid ydym o'r farn bod angen asesiad effaith iechyd.

Rydym o'r farn na fydd gan y polisi:

- **effaith sylweddol ar iechyd dynol yn rhinwedd ei effeithiau ar y penderfynyddion iechyd ehangach canlynol :** Incwm, Troseddu, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Tai, Addysg, Cyflogaeth, Amaethyddiaeth neu gydlynedd Cymdeithasol.
- **effaith sylweddol ar unrhyw un o'r newidynnau canlynol sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw:** Gweithgaredd corfforol, Deiet, Ysmygu, cyffuriau, neu ddefnydd o alcohol, Ymddygiad rhywiol, Damweiniau a straen yn y cartref neu yn y gwaith.
- **galw sylweddol am unrhyw un o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol canlynol:** Gofal sylfaenol, Gwasanaethau cymunedol, Gofal ysbyty, Angen am feddyginiaeth, presenoldeb mewn damwain neu argyfwng, Gwasanaethau Cymdeithasol , ymateb parod ac amddiffyn iechyd.

ATODIAD C: COD YMARFER SWYDDFA'R CABINET AR YMGYNGHORIADAU

Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghoriad Ysgrifenedig. Rhestrir y chwe maen prawf ymgynghori yn fras isod, ond gellid cael mwy o wybodaeth ar: http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/code/criteria.asp

Y Chwe Maen Prawf Ymgynghori

- Ymgynghorwch yn eang trwy gydol y broses, gan ganiatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygu'r polisi.
- Byddwch yn glir ynghylch pwy a all gael eu heffeithio, pa gwestiynau a ofynnir, a'r amserlen ar gyfer ymatebion.
- Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn glir, cryno ac yn hygyrch.
- Rhowch adborth ynghylch yr ymatebion a dderbyniwyd a sut y gwnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar y polisi.
- Monitrwch effeithiolrwydd eich adran gydag ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cydgysylltydd dynodedig ar gyfer ymgynghori.
- Sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion gorau rheoleiddio da, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoliadol os yw hynny'n briodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori ar y papur hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda â Mythily Manickavasagar, Cydlynydd Ymgynghori, Is-adran Strategaeth, Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, Llundain SW1Y 5DH, mythily.manickavasagar@culture.gsi.gov.uk

ATODIAD D: GORCHMYNION DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL – YSTYRIAETH SENEDDOL

Cyflwyniad

1. Bydd y cynigion diwygio hyn mewn perthynas â mân amrywiadau yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn eu gweithredu. Fe allai'r Gweinidog gyflawni'r newidiadau hyn trwy wneud Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio) o dan y Ddeddf Diwygio Rheoleiddio a Deddfwriaeth 2006. Mae Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio yn destun ymgynghori rhag blaen a chraffu Seneddol trylwyr gan Bwyllgorau yn y ddau d Seneddol. Ar y sail yma, mae'r Gweinidog yn gwahodd sylwadau ar y cynigion diwygio hyn mewn perthynas â mân amrywiadau fel mesurau y gellid eu symud ymlaen gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio.

Cynigion Diwygio Deddfwriaeth

2. Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghorol yma ar fân amrywiadau oherwydd mai'r man cychwyn ar gyfer cynigion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yw ymgynghori trylwyr ac effeithiol gyda phartïon sydd â diddordeb. Trwy gynnal yr ymgynghoriad ymlaen llaw yma, disgwylir i'r Gweinidog yn weithredol geisio barn y rhai perthnasol, yn cynnwys rhai y mae'n effeithio'n niweidiol arnynt, ac yna dangos i'r Pwyllgorau Craffu ei iddo/iddi ymdrin â'r pryderon hynny.

3. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, pan fo'r Gweinidog yn rhoi cynigion gerbron y Senedd o dan adran 14 Deddf Diwygio Rheoleiddio a Deddfwriaeth 2006, mae'n rhaid iddo/iddi osod Dogfen Eglurhaol gerbron y Senedd sydd yn gorfod:

i) egluro o dan ba b er neu bwerau yn y Ddeddf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio y mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn yn cael eu gwneud;

ii) cyflwyno a rhoi rhesymau am y darpariaethau yn y Gorchymyn;

iii) egluro pam fod y Gweinidog o'r farn :

- nad oes yno atebion anneddfwriaethol a fydd yn datrys yn foddhaol yr anhawster y mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio wedi'i fwriadu i ymdrin â hwynt;
- bod effaith y darpariaethau yn gymesur â'r amcan polisi;
- bod y darpariaethau a wnaed yn y gorchymyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a buddiannau unrhyw unigolyn y mae'n cael effaith niweidiol arnynt;
- nad yw'r darpariaethau yn dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol;
- nad yw'r darpariaethau yn atal unrhyw un rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y byddent yn disgwyl yn rhesymol i barhau i'w ymarfer;
- nad yw'r darpariaethau yn y cynnig o bwys cyfansoddiadol; a
- lle mae'r cynigion yn ailddatgan deddfiad, yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch neu'n haws i'w deall.

iv) cynnwys, i'r graddau y mae hynny'n briodol, asesiad o'r graddau y byddai'r ddarpariaeth a wnaed gan y gorchymyn yn symud neu'n lleihau unrhyw faich neu feichiau;

v) adnabod a rhoi rhesymau dros unrhyw swyddogaethau deddfu a gyflwynwyd gan y gorchymyn a'r gofynion gweithdrefnol sydd ynghlwm â'r ymarfer y swyddogaethau hynny; a

vi) rhoi manylion unrhyw ymgynghori a wnaed, unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r newidiadau (os oes rhai) a wnaed o ganlyniad i'r cyflwyniadau hynny.

4. Bydd y cyfnod o ystyriaeth Seneddol yn cychwyn ar y diwrnod y mae'r Gweinidog yn gosod y cynigion a'r ddogfen eglurhaol gerbron. Bydd hyn yn parhau am 40 diwrnod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol a chadarnhaol a 60 diwrnod o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Os ydych am gopi o'r cynigion a dogfen eglurhaol y Gweinidog a osodwyd gerbron y Senedd, gallwch eu cael naill o'r adran berthnasol o'r Llywodraeth neu trwy ymweld â gwefan y BRE:

www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/regulatory_reform/act/reform_orders.asp

Craffu Seneddol

5. Mae'r Ddau D Seneddol yn craffu ar gynigion diwygio deddfwriaeth a Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio drafft. Gwneir hyn y Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Cyffredin a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Arglwyddi.

6. Mae Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Cyffredin yn amodi bod y Pwyllgor yn ystyried:

(a) a yw cynigion yn ymddangos fel pe baent yn gwneud defnydd amhriodol o ddeddfwriaeth dirprwyedig;

(b) a yw cynigion yn gwasanaethu'r diben o symud neu leihau baich, neu feichiau cyffredinol, sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfer unrhyw unigolyn gan unrhyw ddeddfwriaeth (mewn perthynas â Gorchymyn drafft o dan adran 1 y Ddeddf);

(c) a yw cynigion yn gwasanaethu'r diben o sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddio yn cael eu hymarfer er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio, fel; y'u nodwyd yn adran 2(3) y Ddeddf (mewn perthynas â Gorchymyn drafft o dan adran 2 y Ddeddf);

(d) a yw cynigion yn sicrhau amcan polisi na ellid ei gyflawni'n foddhaol trwy ddull anneddfwriaethol;

(e) a yw cynigion yn cael effaith sy'n gymesur â'r amcan polisi;

(f) a yw cynigion yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a buddiannau unrhyw unigolyn a effeithir yn niweidiol ganddo;

(g) a yw cynigion yn peidio dileu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol;

(h) nad yw cynigion yn atal unrhyw unigolyn rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y gallai'r unigolyn hynny ddisgwyl yn rhesymol i barhau i'w ymarfer;

(i) nad yw cynigion o unrhyw arwyddocâd cyfansoddiadol;

(j) a yw cynigion yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch neu'n haws i'w ddeall (yn achos darpariaethau sy'n ailddatgan deddfiadau);

(k) a yw cynigion wedi bod yn destun, ac yn cymryd ystyriaeth briodol o ymgynghoriad digonol;

(l) a yw cynigion yn codi mater o dan y fath feini prawf ar gyfer ystyriaeth offerynnau statudol fel nodir ym mharagraff (1) Gorchymyn Sefydlog Rhif 151 (Offerynnau Statudol Cyd Bwyllgor)) fel sy'n berthnasol, megis drafftio diffygiol neu fethiant yr adran i ddarparu gwybodaeth pan oedd ei hangen ar gyfer eglurhad;

(m) a yw cynigion yn ymddangos yn anghymarus ag unrhyw ymrwymiad sy'n deillio o aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

7. Bydd y Pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi yn ystyried pob cynnig yn nhermau meini prawf cyffelyb, er nad yw'r rhain wedi'u nodi mewn Gorchmynion Sefydlog.

8. Fe allai pob Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig i'w helpu i benderfynu ar y materion hyn, ac yna byddai disgwyl i bob Pwyllgor adrodd yn ôl.

9. Gellir cael copïau o Adroddiadau Pwyllgor, fel papurau Seneddol, trwy'r Llyfrfa. Maent hefyd ar gael ar y wefan Seneddol yn:

- Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Cyffredin; a'r
- Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhy'r Arglwyddi.

10. O dan weithdrefn penderfyniad negyddol, rhoddir 40 niwrnod i bob un o'r Pwyllgorau Craffu i graffu ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio, ar ôl hynny fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn os nad yw'r naill d Seneddol neu'r llall wedi penderfynu yn ystod y cyfnod yna na ddylid gwneud y gorchymyn neu i wrthod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio.

11. O dan weithdrefn penderfyniad negyddol, rhoddir 40 niwrnod i bob un o'r Pwyllgorau Craffu i graffu ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio, ar ôl hynny fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn os nad yw'r naill Bwyllgor neu'r llall wedi penderfynu gwrthod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio a bod hynny wedi'i gymeradwyo gan benderfyniad pob un o'r ddau d Seneddol.

12. O dan weithdrefn uwchgadarnhaol rhoddir 60 diwrnod i'r ddau Bwyllgorau Craffu graffu ar y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. Os, ar ôl y cyfnod 60 diwrnod, yw'r Gweinidog yn dymuno gwneud y Gorchymyn heb unrhyw newidiadau, fe all wneud hynny yn unig ar ôl iddo osod datganiad gerbron y Senedd yn rhoi manylion unrhyw gyflwyniadau a wnaed ac os cymeradwyir y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio gan benderfyniad pob un o ddau Dy'r Senedd. Os yw'r Gweinidog yn dymuno gwneud newidiadau i'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio drafft mae'n rhaid iddo osod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn ogystal â datganiad yn rhoi manylion unrhyw gyflwyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod craffu a'r diwygiadau arfaethedig i'r gorchymyn, gerbron y Senedd. Fe all y Gweinidog wneud y gorchymyn yn unig os yw wedi'i gymeradwyo gan benderfyniad pob un o ddau Dy'r Senedd ac heb ei atal gan y naill Bwyllgor perthnasol neu'r llall.

Sut i Leisio Eich Barn

13. Ymateb i'r ddogfen ymgynghori yma yw eich cyfle cyntaf a'r prif gyfle i chi fynegi eich barn i'r adran berthnasol fel rhan o'r broses ymgynghori. Dylech anfon eich barn i'r cyfeiriad a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Pan yw'r Gweinidog yn gosod cynigion gerbron y Senedd mae croeso i chi leisio eich barn gerbron y naill neu'r llall neu'r ddau Bwyllgor Craffu.

14. Yn y lle cyntaf, fe ddylech wneud hynny yn ysgrifenedig. Fel arfer bydd y Pwyllgorau yn penderfynu ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig a fyddant yn gwrando ar dystiolaeth lafar.

15. Dylai eich cyflwyniad fod mor gryno â phosib, a dylai ganolbwyntio at un neu fwy o'r meini prawf a restrwyd ym mharagraff 6 uchod.

16. Gellir cysylltu â'r Pwyllgorau Craffu a benodwyd i graffu ar Orchmynion Diwygio Rheoleiddio yn y cyfeiriadau isod:

Delegated Powers and
Regulatory Reform Committee
House of Lords
London
SW1A 0PW
Ffôn: 0207 219 3103
Ffacs: 0207 219 2571
ebost: DPDC@parliament.uk

Regulatory Reform Committee
House of Commons
7 Millbank
London
SW1P 3JA
Ffôn: 020 7219 2830/2833/2837
Ffacs: 020 7219 2509
ebost: regrefcom@parliament.uk

Peidio datgelu ymatebion

17. Mae Adran 14(3) y Ddeddf Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio yn darparu ar gyfer yr hyn ddylai ddigwydd pan fo rhywun sy'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori ar Orchymyn Diwygio Rheoleiddio arfaethedig yn gofyn am beidio datgelu eu hymateb.

18. Bydd enw'r sawl sydd wedi cyflwyno sylwadau yn cael ei ddatgelu i'r Senedd bob tro. Os gofynnwch i'ch sylwadau beidio cael eu datgelu, ni ddylai'r Gweinidog ddatgelu cynnwys y sylwadau hynny heb eich caniatâd penodol chi ac, os yw'r sylwadau yn ymwneud â thrydydd parti, eu caniatâd hwythau hefyd. Fel arall, fe all y Gweinidog ddatgelu cynnwys y sylwadau yn y fath fodd i sicrhau eich bod yn aros yn ddienw a sicrhau bod unrhyw drydydd parti yn aros yn ddienw hefyd.

Gwybodaeth am Drydydd Parti

19. Os ydych yn rhoi gwybodaeth am drydydd parti sydd ym marn y Gweinidog yn niweidiol i fudd y trydydd parti yna, nid oes rhaid i'r Gweinidog basio gwybodaeth o'r fath ymlaen i'r Senedd os yw o'r farn nad yw'n wir neu os nad yw'n gallu cael caniatâd y trydydd parti i'w ddatgelu. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych chi yn gofyn i'ch sylwadau beidio cael eu datgelu.

20. Fodd bynnag, fe all y Pwyllgorau Craffu, trwy wneud cais, gael mynediad at bob sylw a gyflwynwyd yn wreiddiol, fel diogelwch rhag dylanwadu'n amhriodol ar Weinidogion wrth lunio gorchmynion diwygio deddfwriaeth.

Gweithrediaeth Gwella Rheoleiddio
Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio